www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 531
Chwefror
2025




## Oes Argyfwng Tai ym Mro'r Wyddfa?

A glywsoch chi sôn am Erthygl 4? Os nag ydach chi eisoes yn gyfarwydd yna mae'n debyg y byddwn yn dod i wybod llawer mwy amdano yn y dyfodol gan mai ei fwriad ydi gwneud newidiadau sylweddol i'r farchnad dai.

Y llynedd fe benderfynodd Cyngor Gwynedd i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Ers 1 Medi 2024 mae angen derbyn caniatâd cynllunio o flaen llaw cyn newid defnydd eiddo preswyl i fod yn ail gartref, llety gwyliau tymor-byr neu ddefnydd cymysg penodol.

Bydd rheolau newydd Erthygl 4 yn cael eu profi cyn hir pan fydd Cyngor Gwynedd yn gorfod derbyn neu wrthod cais cynllunio i drosi 5 fflat llety preswyl yn Llanberis yn lety gwyliau. Cadwch olwg ar y datblygiadau!

Yn y cyfamser mae trigolion lleol eisoes yn ymateb i'r sefyllfa bresennol, ac fe ddaeth criw Partneriaeth Dyffryn Peris at ei gilydd fis Ionawr i drafod beth fedrwn ni ei wneud yn lleol ynghylch prinder cartrefi yn yr ardal.

Trowch at dudalen 18 i ddarllen rhagor o'r hanes.



Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:

- **Snowdonia Fire Protection yn 50 oed! - tud. 4**
- **Ail agor Cylch Meithrin Dolbadarn - tud. 13**
- **Atgofion tîm pêl-droed Llanbabo o'r 50au - tud. 11**
- **Arweinydd newydd Côr Meibion Dyffryn Peris - tud. 14**



7



22

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

**£20** Er cof am Geraint Rees Morris, Fferm Hafodty, Cwm Brwynog, Llanberis
Er cof am Heulwen Bryn Morris, Fferm Cefn Coch, Deiniolen
Er cof am Dafydd William Morris, Fferm Cefn Coch, Deiniolen

**£30** Rhodd Stephen Owen, Hafod Oleu, Deiniolen

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mawrth | 14 Chwefror | 28 Chwefror |
| Ebrill | 14 Mawrth | 28 Mawrth |
| Mai | 11 Ebrill | 25 Ebrill |

# Llythyr

Annwyl ddarllenwyr,
Rwy'n gwirfoddoli i Cymru Versus Arthritis (CVA) sy'n rhan o Versus Arthritis, elusen arthritis fwyaf y DU.

Mewn ymgais i gynyddu ei wasanaethau Cymraeg, mae CVA wedi creu grŵp cymorth Cymraeg ar-lein AM DDIM i oedolion sy'n byw gydag arthritis neu gyflwr cyhyrysgerbydol neu eu gofalwyr.

Mae bron i 900,000 o bobl Cymru yn byw gydag arthritis a gall daro pobl o unrhyw oed, hyd yn oed plant. Mae croeso i chi gysylltu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch.
Gyda diolch yn fawr i chi,

**Elaine Edwards**
Gwirfoddolwr Arweiniol



VERSUS ARTHRITIS GRŴP CYMORTH
Grŵp Cymraeg AR-LEIN
(11yb - 12.30yp) trwy Teams
Dydd Iau 1af bob mis
Mae ein cyfarfodydd grŵp cymorth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bob oedolyn sydd ag arthritis neu gyflwr MSK. Dewch i rannu profiadau ac awgrymiadau, gwneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau. Croeso i bawb!
Cysylltwch: walessupport@versusarthritis.org
CYMRU VERSUS ARTHRITIS
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
**Hefin Jones**, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838. hefsj@aol.com



## Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Pantomeim**. Perfformiad olaf Harvey Kay o Sheffield yn ystod gwyliau'r Nadolig, a hynny yn 100 oed. Dechreuodd berfformio yn wyth oed, ac yn 1948 sefydlodd ei gwmni ei hun – 'High Green Musical Theatre'. Bu'r cwmni – a Harvey – yn perfformio pantomeim yn Sheffield byth ers hynny, ac aelodau o genedlaethau iau y teulu wedi cymryd rhan hefyd.
- **Gwrando**. Cafwyd rhybudd o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod llawer o'r eitemau a brynwyd dros y Nadolig yn 'gwrando' ar sgyrsiau'r teuluoedd a'u prynodd, yn cynnwys setiau teledu. 'air fryers', a pheiriannau gwneud coffi. Mae rhybuddion preifatrwydd cwsmer yn cael eu cyhoeddi gyda'r eitemau hyn, ond yn cynnwys hyd at 8,000 o eiriau a allai gymryd bron i hanner awr i'w darllen (heb sôn am eu deall) a hynny cyn penderfynu prynu. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i dargedu bwriadau gwario'r cwsmeriaid.
- **Brenin.** Mae Llywodraeth Jamaica yn cysidro diddymu'r Brenin Charles fel Pennaeth y Wladwriaeth, a sefydlu ei hun yn weriniaeth. Gallant ddilyn nifer o ynysoedd eraill y Caribi sydd eisoes wedi dilyn y trywydd hwn.
- **Coron ddrain.** Yn dilyn y tân difaol yn Eglwys Notre Dame yn 2019, cafodd coron ddrain ei dychwelyd yno. Honnir mai hon oedd y goron ddrain a wisgodd Crist ar y groes. Ceir y cyfeiriad cyntaf ati yn y bumed ganrif, ac fe'i trosglwyddwyd i Constantinople yn y ddegfed ganrif cyn cael cartref parhaol yn Notre Dame.
- **Storm Darragh**. Porthladd Caergybi wedi agor yn rhannol yn dilyn y difrod sylweddol a wnaethpwyd iddo yn dilyn un o stormydd gwaethaf y llynedd.
- **Yfed a gyrru.** Cynlluniau'n cael eu cyhoeddi i newid y ddeddf oherwydd fod nifer y marwolaethau o ganlyniad i yrwyr meddw wedi cyrraedd uchafswm o 300.
- **Trump.** Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, hwn fydd Arlywydd UDA. Mae eisoes wedi honni y dylai Canada ddod yn dalaith rhif 51; y dylai'r Ynys Werdd (Greenland) gael ei gwerthu i'r UDA, ac y dylid hawlio perchnogaeth Panama a'i chamlas yn ôl i feddiant UDA. Yn y cyfamser mae'r Ynys Werdd wedi galw am hunan-lywodraeth, gan honni na fu'r berthynas gyda Denmarc o fudd economaidd iddynt dros y tri chwarter canrif ddiwethaf.
- **Cyffuriau.** Mae 'Ystafell Cyffuriau Diogel' wedi agor yn ninas Glasgow, y gyntaf o'i bath ym Mhrydain. Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr cyffuriau anghyfreithlon eu defnyddio dan reolaeth feddygol. Y gobaith yw y bydd yn gymorth i nifer o'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau i dderbyn cymorth a chefnogaeth i roi'r gorau i'w defnyddio. Bydd yr ystafell ar agor o naw o'r gloch y bore tan naw yr hwyr ar bob diwrnod o'r flwyddyn, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus.
- **Llygredd.** Mae Hanoi, prifddinas Vietnam wedi ei henwi fel y ddinas fwyaf llygredig yn y byd, a hynny oherwydd lefelau uchel o nwyon gwenwynig a achosir gan or-ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat, gormodedd o ddiwydiannau trwm heb reolaeth ar eu hallyriadau a gormodedd o losgi sbwriel.

# Cystadlaethau Chwaraeon Urdd Eryri

Mae wedi bod yn dymor cyffrous a phrysur, llawn cystadlaethau chwaraeon i ysgolion Cynradd Eryri. Mae tîm Digwyddiadau'r Urdd wedi cael y pleser o drefnu a chynnal 4 diwrnod llawn hwyl a chystadlu lle gwelwyd dros 1,300 o blant o 112 tîm yn cymryd rhan.


Rydym wir yn gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus yr ysgolion. Mae cyffro a brwdfrydedd yr ysgolion yn dangos angerdd a chariad mawr tuag at chwaraeon yn yr ardal. Mae'r cystadlaethau wedi bod llawn perfformiadau ysbrydoledig… Mae'n amlwg bod ambell 'Seren Chwaraeon' y dyfodol i gadw golwg arnynt yn Eryri! Tu hwnt i berfformiadau athletaidd, mae'r cystadlaethau wedi meithrin cyfeillgarwch, ymdeimlad cymunedol ac angerdd am Chwaraeon, sy'n amhrisiadwy.

Hoffai tîm yr Urdd estyn diolch enfawr i'r holl ysgolion a gymerodd rhan yn ein cystadlaethau eleni. Diolch arbennig hefyd i'n dyfarnwyr ac i fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor am weinyddu'r gemau gyda phroffesiynoldeb. Nid yw'n bosib cynnal ein cystadleuaeth heb y cymorth yma.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r ysgolion i gystadlaethau nesaf Eryri yn 2025. Dyma sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf:

**Rygbi TAG Merched Bl. 5-6 a Rygbi TAG Cymysg Bl. 3-4**
Dyddiad: 13eg Chwefror
Lleoliad: Clwb Rygbi Caernarfon
**Rygbi Agored (Taclo) Bl. 5-6**
Dyddiad: 13eg Mawrth
Lleoliad: Clwb Rygbi Caernarfon
**Criced 50/50 (Bl. 3-4)**
Dyddiad mewn golwg : 15ed Mai (i'w gadarnhau)
Lleoliad: Clwb Criced Bangor
**Athletau (Bl. 3-6)**
Dyddiad: 12fed Mehefin
Lleoliad: Trac Athletau Treborth

Defnyddiwch y ddolen isod i ddod o hyd i ddigwyddiadau ac i gofrestru ar gyfer ein cystadlaethau: www.urdd.cymru/cy/chwaraeon/cystadlaethau/







SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd



8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP

# WAUNFAWR

**Brysia Wella**
Dymuniadau gorau i Paul Evans, Rhoslwyn sydd wedi bod yn cael triniaeth yn yr ysbyty a derbyn aren newydd ar ddechrau Rhagfyr. Da clywed bod pob dim yn mynd yn iawn Paul a dy fod yn teimlo'n well.

**Ti a Fi Waunfawr**
Newyddion da iawn ar ddechrau blwyddyn ydi bod Grŵp Ti a Fi wedi ail gychwyn wedi cyfnod o seibiant. Mae hwn yn gyfle gwych i fabis a phlant bach a'u rhieni ddod at ei gilydd i chwarae a chymdeithasu. Maent yn cyfarfod pob dydd Iau yn Y Ganolfan rhwng 1.30 -2.30pm.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Sian Angharad, Llwyn Celyn, Llion ei gŵr, a'r plant Mari a Brython ar golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl.

**Am Dro yn Waunfawr**
Os ydych yn dilyn y gyfres Am Dro ar S4C rydych wedi gweld sawl cornel o Gymru erbyn hyn, ond fis Rhagfyr, tro Waunfawr oedd hi – gyda Gareth Jones (mab Sandra, Graianfryn gynt) yn arwain taith i ben Moel Eilio. Roedd yn ddiwrnod bendigedig, yr ardal yn edrych ar ei gorau a hanes yr ardal ar flaenau bysedd Gareth. Roedd yn rhaglen ddifyr a Gareth yn llawn haeddu'r wobr o £1,000. Da iawn yn wir Gareth.

**Clwb Cant Y Ganolfan**
Dyma'r canlyniadau am y flwyddyn a fu:
Ionawr – Wyr Thomas, Weirglodd Fawr; Chwefror – Dr. Huw Roberts, Caernarfon; Mawrth – Delyth Jones, Tan-y-Coed; Ebrill – Ann Jones, Croesor; Mai – Jeni Jones, Glyn Ceris; Mehefin – Delyth Jones, Llys Eryri; Gorffennaf – Iona Williams, Llwydiarth; Awst – Pat Parry, Ffridd Felen; Medi – Heulwen Huws, Argoed; Hydref – Nan Huws-Roberts, Madryn, Caeathro; Tachwedd – Lesley Williams, 4 Stad Ty Hen; Rhagfyr – Geraint Williams, 13 Stad Croesywaun. Diolch i Carys Owen am y wybodaeth.









## Dathliad Arbennig - Snowdonia Fire Protection yn 50 oed!

Dwi'n eithaf sicr mai Snowdonia Fire Protection yw prif gyflogwyr y pentref yma erbyn hyn, ac er iddynt ehangu i nifer o safleodd ers sefydlu'r cwmni yn 1974, eu safle yma yn Waunfawr yw calon y cwmni o hyd.

Yn 1974, sefydlodd y diweddar David Greasley y cwmni mewn sied yn ei ardd, ac unig gerbyd y cwmni oedd Robin Reliant bychan. Gwladys Greasley ei wraig sy'n parhau i fyw yn y cartref, oedd yn cadw'r llyfrau ar fwrdd y gegin.

Erbyn hyn, un o blant David a Gwladys Greasley, sef Pete a'i wraig Janet sy'n rhedeg y cwmni ynghyd â thri o'u plant, Marc, Dafydd a Sion. Maent yn cyflogi 92 o bobl ac yn berchen ar 60 o gerbydau.

Gofynais i Janet a Pete, wrth edrych yn ôl ar yr hanner cant o flynyddoedd diwethaf, beth maent yn fwyaf balch ohono, a beth fu'r cyfnod mwyaf heriol?

"Un o'r pethau rydym fwyaf balch ohono yw fod nifer o gwsmeiriaid efo ni ers hanner can mlynedd ers sefydlu'r cwmni. Mae pobl wedi bod yn ffyddlon iawn i ni.

"Mae gennym ni hefyd nifer o weithwyr sydd wedi bod yma ers dros 25 mlynedd ac rydym yn gwerthfawrogi eu ffyddlondeb nhw hefyd.

"Y cyfnod mwyaf heriol yn bendant oedd adeg Covid. Cyn i'r Llywodraeth ddweud eu bod am greu cynllun furlough roeddem wedi poeni yn fawr am y staff. Roeddem hefyd yn poeni am y rhai oedd yn gweithio yn ystod y cyfnod yma pan doedd neb yn gwybod yn iawn beth oedd natur Covid a'i effaith ar ein staff."

Mae mor braf gweld cwmni lleol yn profi cymaint o lwyddiant fel hyn. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol, a diolch am rannu eich hanes gyda'r Eco.







# Ysgol Waunfawr



Blwyddyn Newydd Dda i holl gymuned yr ysgol. Braf oedd croesawu'r plant yn dilyn seibiant y Nadolig.

Byddem yn cychwyn ar ein paratoadau ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd yn fuan yn y flwyddyn newydd ac yr ydym yn croesawu unrhyw gymorth bob amser, boed hynny yn gymorth gyda chanu, llefaru neu waith celf.

Thema y dosbarthiadau y tymor hwn fydd:
Rhew ac Eira
Dathliadau
Ein Cynefin
Tywysogion Cymru.

Os oes arbenigedd neu sgwrs ddiddorol gan rywun cofiwch gysylltu.

Dyma luniau y dosbarth Meithrin yn arbrofi gyda chreu addurniadau rhew.

Dyma ddosbarth Mynydd Mawr yn creu addurniadau calennig ar gyfer y flwyddyn newydd.






**Diolchiadau**
Diolch yn fawr am y rhodd hael i'r ysgol gan fynychwyr Paned a sgwrs. Byddwn yn defnyddio'r arian i gyfoethogi adnoddau'r ysgol.

Diolch hefyd i bwyllgor Marathon Eryri am eu rhodd hael iawn yn dilyn y ras fis Hydref.


# Un funud fach ...

## "180"

Os ydych chi'n chwarae dartiau, tybed ym mha iaith y byddwch chi'n cyfri'r sgôr? Os yn y Gymraeg, mae'n debyg mai'r dull degol o rifo a ddefnyddiwch ac mai "Cant wyth deg" fyddai'r sgôr am dri dart yn y 'trebl 20'. Ond tybed na fyddai'r hen ddull ugeiniol traddodiadol yn fwy addas ac yn cyfateb yn well i'r gri gyffrous, "One hundred and eighty!"? Rhowch gynnig ar weiddi, "Cant–a–phed–war–u–gain!".

Fuoch chi'n gwylio Pencampwriaeth Ddartiau'r Byd yn ddiweddar? Welais i mo'r rowndiau cyntaf cyn y Nadolig, ond gan fod mwy nag un o'r meibion wedi mynnu y byddwn i'n mwynhau'r gystadleuaeth mi wnes i wylio'r gemau olaf. O bosib mai'r holl sôn am yr hogyn ifanc dwy ar bymtheg oed Luke Littler a ddaliodd fy sylw. A braf oedd ei weld yn ennill y dydd a chael ei goroni'n Bencampwr Byd ar ddiwedd y rownd derfynol.

Wedi deud hynny, dwi ddim yn siŵr a fyddaf yn rhuthro at y teledu pan ddaw'r gystadleuaeth nesaf i'r sgrin. Ac eto, roedd rhaid edmygu dawn y chwaraewyr. Fûm i erioed yn dda am daflu dartiau. Roedd gennym fwrdd dartiau pan oeddem yn blant, ond roedd mwy o dyllau mân ar gefn y drws nag ar y bwrdd ei hun! Mae sawl blwyddyn ers i mi daflu'r un dart, ond dwi'n gwybod na fyddwn i fawr gwell heddiw nag yr oeddwn bryd hynny. Mi fyddwn yn sicr yn anobeithiol am daro na dwbl na threbl, ac yn ddigon bodlon pe digwyddwn, trwy ryw ryfeddod, daro un neu ddau o rifau cywir.




Gallu'r chwaraewyr oedd yn creu'r cyffro. Mor aml y glaniodd y tri dart yn y 'gwely trebl 20'. Perffeithrwydd o fath. Ond yn yr un modd, byddai tri dart mewn unrhyw 'wely' arall ar y bwrdd yn berffeithrwydd os mai at hwnnw y'u hanelwyd. Oherwydd holl grefft y gêm ydi taro'r nod. Ac mor aml y gwelwyd y dartiau'n glanio o fewn trwch blewyn i'r nod, ond yn methu â'i daro, a hynny'n ddigon i golli'r gêm.

Dydi dod o fewn trwch gwybedyn ddim digon da: rhaid taro'r nod.

Fe ddylai'r syniad o 'fethu'r nod' fod yn gyfarwydd i ddarllenwyr y Testament Newydd. Oherwydd yn amlach na heb, pan welwn ni'r geiriau 'pechod' a 'phechu' yn Gymraeg, cyfieithiad ydyn nhw o'r geiriau Groeg gwreiddiol sy'n golygu 'methu'r targed'. Yn syml iawn, pechod ydi methu â chyrraedd safon berffaith Duw; methu byw fel y mae Duw am i ni ei wneud.

Ac fel efo'r dartiau, dyw bod yn agos at y nod ddim digon da. Perffeithrwydd – a dim llai – y mae Duw yn ei ofyn a'i ddisgwyl gennym. Ond fedrwn ni, efo'n hymdrechion gorau, ddim â chyrraedd y safon honno.

Mae Luke Littler a'i gyd-chwaraewyr yn aml yn taflu'r 'dartiau perffaith', boed hynny'r "Cant–a–phedwar–u–gain" neu'r tri dart tyngedfennol i ennill y gêm. Ond gwir berffeithrwydd iddyn nhw fyddai taro'r nod bob tro! Er cystal ydyn nhw, mae hynny, wrth reswm, ymhell y tu hwnt i'w gallu. Ddown ninnau fyth yn agos at y perffeithrwydd a ddisgwylir oddi wrthym, o garu Duw a charu'n gilydd â'r cyfan sydd ynom. Ond y gobaith a gawsom ydi bod yr unig un a lwyddodd i daro'r nod yn llawn a byw yn berffaith – yr Arglwydd Iesu Grist – yn ei gynnig ei hun i ni yn gyfaill, yn achubwr ac yn ffordd at Dduw er gwaetha'n methiannau a'n pechodau. Oherwydd, os credwn yng Nghrist, mae Duw yn edrych arnom fel pe byddem wedi taro'r nod yn berffaith.

**JOHN PRITCHARD**

## LLANRUG

Cyfarchion a chofion cynhesaf at bawb ar ddechrau blwyddyn newydd, gan obeithio eich bod yn cadw'n ddiogel yn y tywydd rhynllyd ac ansefydlog sydd wedi ein taro yn yr wythnosau diwethaf. Ydy wir, mae'r gaeaf yn gafael erbyn hyn.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gwenllian ac Adam, 2 Parc Canol ar enedigaeth eu mab bach, Albi Jon ddeuddydd cyn y Nadolig. Mae Mabli wedi gwirioni efo'i brawd bach newydd.

Llongyfarchiadau mawr i Chris a Lois Williams, Glanffynnon, ar enedigaeth Mabon, sydd yn frawd bach i Huw. Pob dymuniad da i chi.

**Capel y Rhos**
Oedfaon mis Chwefror:
2il Chwefror: Ms Karen Owen
9fed Chwefror: y Gweinidog Y Barch Nerys Anne Griffiths
16eg Chwefror: Y Barch Glenys Jones, Pwllheli
23ain Chwefror: Y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i deulu Aled Parry, Ael y Bryn, Tai Tan-y-Coed, fu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 10fed Rhagfyr yn 49 mlwydd oed. Mab annwyl John a'r ddiweddar Owena, brawd hoffus Bethan, Wyn, Annwen a Rheon, a brawd-yng-nghyfraith Aled, Nerys, Aled ac Emma, ac ewythr hoff i Efa. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn meddwl llawer amdanoch yn y cyfnod hynod anodd yma.

Rydym hefyd yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Llywela Hall, Pencraig, Glanffynnon, fu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 29ain Rhagfyr yn 86 mlwydd oed. Chwaer annwyl Hywel a'r ddiweddar Eleri, a modryb hoff Eryl, Rhian a'u teuluoedd. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau. Rydych yn ein meddyliau.

**Gwellhad buan**
Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Olwen Hughes, Afon Rhos, sydd wedi cael codwm ac wedi torri nifer o'i hasennau.

**Merched y Wawr**
Croesawodd Bethanne Williams, y Llywydd, yr aelodau i gyfarfod olaf 2024 ar nos Fawrth, 10fed Rhagfyr.

Adroddwyd cyfarchion y Nadolig oddi wrth Geunor Roberts, y Llywydd Cenedlaethol. Cyhoeddwyd hefyd y byddai Cracyr Nadolig, sef rhaglen o gyflwyniadau Nadolig gan bob rhanbarth yn cael ei ddarlledu dros Zoom ar nos Fercher, 18fed Rhagfyr am 7.00 o'r gloch yr hwyr, ac mai cangen Penygroes fyddai yn cynrychioli Rhanbarth Arfon eleni.

Diolchwyd i'r aelodau hynny a fu'n cystadlu yn Ffair Aeaf Sioe Llanelwedd ac a fu yn ymweld â Maes y Sioe.

Llongyfarchwyd Haf, merch Ann Thomas, ar gyhoeddi ei hunangofiant *O na fyddai'n Haf o hyd!* ac a oedd yn croniclo'r gwaith anhygoel a gyflawnodd Haf dros y blynyddoedd yn codi arian tuag at amryfal achosion da. Nodwyd hefyd fod Côr Dyffryn Peris yn cynnal noson yn Penbont ar 14eg Rhagfyr, gyda'r elw yn mynd at elusen clefyd Motor Neurone, a phenderfynodd yr aelodau gyfrannu £25 tuag at y digwyddiad.

Gwraig wadd y noson oedd un o'n haelodau sef Rhiannon Roberts, a'i thestun oedd sut i greu addurn Nadolig gyda'r nôd o gael pob aelod i fynd adref gydag addurn Nadolig arbennig. Roedd Rhiannon wedi paratoi'n drylwyr, a chafodd pawb becyn yn cynnwys pelen polystyrene wedi ei rhannu yn chwe rhan gan farciau beiro, darnau o ddefnydd mewn lliwiau coch, gwyrdd, aur ac arian wedi ei dorri'n barod, pinnau a sawl math o ruban. Deallwyd hefyd fod y cyfan o'r rhain wedi eu prynu yn lleol. Rhoddodd Rhiannon gyfarwyddiadau clir iawn ar sut i gwblhau'r addurn, ac ymhen ychydig o amser roedd nifer o beli Nadolig deniadol iawn yn cael eu harddangos gan yr aelodau. Bu'n orig ddifyr a chynhyrchiol.

Ar ddiwedd y noson roedd blas eithriadol ar y baned a'r mins pei a drefnwyd gan y swyddogion. Enillwyd gwobr y raffl sef planhigyn cyclamen oedd yn llawn blodau gan Linda. Dymunodd Bethanne Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

## Gwyneth Vaughan Hughes

Enw bedydd Gwyneth Vaughan oedd Annie Harriet Jones. Ganed yn Nhalsarnau, Meirionnydd ar 5ed Gorffennaf 1852. Addysg elfennol yn unig a gafodd, ac wedi hynny aeth i Lan Ffestiniog i ddysgu sut i wneud hetiau merched. Gweithiodd wrth ei chrefft am gyfnod cyn mynd i weithio yn siop Coed Helen House, Clwt y Bont.

Priododd â John Hughes Jones un o feibion y siop ym mis Medi 1875. Aethant i fyw i Lundain er mwyn i'w gŵr gael gorffen ei gwrs meddygol. Yr ystod y cyfnod hwn gollyngwyd y Jones o enw'r teulu a defnyddiwyd yr Hughes yn unig. Cawsant bedwar o blant, sef Arthur, Guy, Laura Kathleen a Roy Bennet. Erbyn 1893 roedd y teulu yn ôl yng Nghlwt y Bont. Yn 1902 bu farw Dr. Hughes a symudodd Gwyneth Vaughan a'r plant yn gyntaf i Fangor, ac yna i Bwllheli yn 1909.

Gweithgareddau cyhoeddus Gwyneth Vaughan a'i gwnaeth yn adnabyddus yn gyntaf. Dechreuodd annerch cyfarfodydd cyhoeddus dros y Blaid Ryddfrydol yn 1891, ac o 1898 hyd at 1905 bu'n ysgrifennydd The Welsh Union of Women's Liberal Associations. Teithiodd drwy'r wlad hefyd yn darlithio ar bynciau fel dirwest, crefydd a moesoldeb. Bu yn un o weithwyr mwyaf diwyd y British Women's Temperance Association a sefydlodd 243 o ganghennau y mudiad drwy Brydain.

Gorchest fwyaf Gwyneth Vaughan oedd ei chyfraniad toreithiog yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r wasg ar y pynciau a nodwyd uchod, ac hefyd ymgyrchoedd priodol fel cael pleidlais seneddol i ferched, a hawliau merched yn gyffredinol. Cymerodd ddiddordeb mewn pethau Celtaidd fel llawer o'i chyfoeswyr. Derbyniwyd hi i Orsedd y Beirdd yn eisteddfod Llanelli ym 1895. Cyfraniad pennaf Gwyneth Vaughan i lenyddiaeth Gymraeg oedd ei nofelau a ysgrifennodd yn ystod saith mlynedd diwethaf ei bywyd, *O Gorlannau y Defaid*, *Plant y Gorthrwm*, *Cysgodau y Blynyddoedd Gynt* a *Troad y Rhod*. Bu farw ar 25 Ebrill 1910.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru




Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

# DEINIOLEN






**Seren Deledu**
Bydd Leon Fletcher o Ddeiniolen yn ymddangos mewn rhaglen deledu newydd ar S4C o'r enw Help Llaw. Bydd Leon yn chwarae rhan y prentis handiman Harri Bach. Bydd y rhaglen i'w weld ar Cyw.

Mae'r gyfres yn cyflwyno fformat newydd sbon gyda thri cymeriad deinamig – Harri Mawr yr handiman cyfeillgar, ei brentis Harri Bach, a Harriet yr un sy'n trio cadw trefn ar y ddau.

Llŷr Evans yw'r dyn DIY doniol Harri Mawr, sydd bob amser yn barod i helpu, i drwsio ac i adeiladu, ond sydd yn fwy aml na dim yn gwneud llanast ohoni mewn gwirionedd. Harriet yw Non Haf a Harri bach yw Leon Fletcher, sy'n ddisgybl yn Ysgol Pendalar.

Gyda'i gilydd, a chyda chymorth Hafwen y trefnydd annwyl ar-lein, mae'r tri yn taclo heriau a thrwy hynny yn mynd ar anturiaethau gyda phlant o Gymru benbaladr i helpu pob math o bobol gyda'u jobsus.

Ar hyd y ffordd bydd Harriet hefyd yn helpu'r gynulleidfa i gyfathrebu drwy ddangos sut i greu arwyddion Makaton.

Trwy integreiddio Makaton a hwyl gweledol mae hon yn gyfres fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddulliau o gyfathrebu mae plant yn eu defnyddio ac yn gwneud hynny mewn cyfres fydd yn apelio at bawb - yn blant o ddim i gant oed.



**Clwb Snwcer Deiniolen**
Cynhaliwyd cystadleuaeth snwcer yn ddiweddar a llongyfarchiadau i Tomos am guro a Siôn am ddod yn ail. Diolch i Gwion Jones a Caio Owen am drefnu a chynnal y noson. Gwych!



**Atgofion am deulu mawr 59 Pentre Helen**
Magwyd 15 o blant; 4 brawd ac 11 chwaer yn 59 Pentre Helen. Yn drist iawn, mae'r 15 bellach wedi ein gadael. Dyma'r 15:

Huw Parry, Emyr Parry, Elwyn Parry, John Elwyn Parry, Margaret Parry, Helen Parry, Lizze May Parry, Valmay Parry, Mari Parry, Pauline Parry, Julia Parry, Jenny Parry, Betty Parry, Olwen Parry, Lenora Parry.

Cofion annwyl am y teulu arbennig yma gan Stephen Owen, Sandra Stokes ac Adrian Stokes.

**Profedigaeth**
Yn dawel ym Mhlas Pengwaith, Llanberis a gynt o Cae Rhedyn, Clwt y Bont, bu farw Ann Jane (Nan) Owen yn 94 mlwydd oed.

Gwraig gariadus y diweddar Robert Morris Owen (Bob), mam annwyl Ruth, Buddug, Margaret ac Alwyn a mam yng nghyfraith Barry, Jim, Carol a'r diweddar John. Nain arbennig i 11, hen nain i 22 a hen hen nain i 5. Colled fawr i'w theulu a'i ffrindiau oll.

Cydymdeimlir a'r holl deulu yn eu colled o un mor annwyl.

**Gair gan y Cynghorydd Elfed Williams**
Daeth newyddion bod newidiadau i'n gwasanaeth Post ni yn Neiniolen - yr oriau newydd fydd 2.45pm tan 3.15pm.

Rydym yn dal i ddisgwyl cadarnhad gan y cyngor ynghylch pa bryd fydd y gwasanaeth ieuenctid yn ail gychwyn yn y pentref. Gobeithio yn fuan iawn.

Diolch yn fawr i bob mudiad yn y ward a aeth ati i gynnal digwyddiadau dros yr ŵyl.

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.



**Merched y Wawr**
Cafwyd noson hyfryd yn dathlu y Nadolig ym mwyty Melys, Caernarfon. Eto eleni cafwyd noson hwyliog gyda bwyd bendigedig, ac wrth gwrs santa cudd. Roedd wedi bod yn brysur eto eleni a cafodd pawb eu pleisio gyd bob math o anrhegion doniol ac anarferol. Diolch unwaith eto i Jackie am yr holl waith trefnu.

Byddwn yn ail ddechrau ein cyfarfodydd misol yn Nhŷ Elidir, ar y 3ydd dydd Llun o bob mis am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau newydd atom.

---

**Cefnywaun ac Ebeneser**
Dyma drefn yr oedfaon yn Nhŷ Elidir am y mis nesaf:

Ionawr 26 - Y Parchg John Pritchard am 2.00 pm
Chwefror 2 - Y Parchg Olaf Davies am 2.00 pm
Chwefror 9 - Dim Oedfa
Chwefror 16 - Y Parchg John Pritchard am 2.00 pm
Chwefror 23 - Dim Oedfa

**Eglwys Crist, Llandinorwig**
Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys fel â ganlyn, pob prynhawn Sul ym mis Chwefror am 3.00 pm:
2ail - Hwyrol Weddi
9ed - Cymun Bendigaid
16eg - Hwyrol Weddi
23ain - Cymun Bendigaid

Roedd yn dda i'r pentref gael dathlu y Nadolig drwy i Seindorf Arian Deiniolen gynnal eu cyngerdd blynyddol yn yr Eglwys. Cafwyd noson arbennig gyda'r eglwys yn orlawn, a chafwyd amrywiol eitemau ynghyd â rhai tymhorol gan y Seindorf. Cafwyd eitemau amrywiol gan gôr Ysgol Gwaun Gynfi ac roedd safon eu perfformiad yn uchel iawn. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi ac yn paratoi'r noson.

Ar y 15ed o Ragfyr cafwyd gwasanaeth o Naw Llith a Charol, a dyma eto noson arbennig ei naws. Diolch i bawb am gymerodd ran a diolch i'r rhai hynny a baratodd y gwasanaeth tymhorol yma.

Noswyl Nadolig cafwyd weinyddiad o'r Cymun Bendigaid a da oedd gweld cynifer o bentrefwyr yn ymuno i ddathlu Gŵyl y Geni.

# BETHEL A SEION

Blwyddyn Newydd Dda i chwi.

**Clwb Bro Bethel**
Daeth 36 o aelodau a ffrindiau ynghyd i fwynhau ein cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon ar ddydd Mawrth 3ydd Rhagfyr. Croesawyd pawb yno gan ein llywydd, Mary Wyn Jones. Mwynhawyd cinio blasus iawn, a diolchodd y llywydd i Gwen a staff y clwb am eu gwasanaeth. Diolchwyd hefyd i bawb a gyfrannodd wobrau i'r raffl.

Cynhaliwyd wasanaeth Nadolig y Clwb Bro ar 10fed Rhagfyr, gyda nifer o aelodau yn cymryd rhan. Y thema eleni oedd 'Carolau'. Diolch i Rita Williams am drefnu unwaith eto eleni ac i Pat Millican a Beti Williams oedd yn gyfrifol am y baned.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4ydd Chwefror yn Festri'r Cysegr am 1.30pm.



**Caffi Cymunedol Bethel**
Mae'r flwyddyn newydd wedi dechrau gyda newyddion da fydd yn elwa y caffi. Gwnaed cais llwyddiannus am grant cymdeithasol dan y cynllun Croeso Cynnes sy'n cael ei hyrwyddo gan Gist Gwynedd. Gyda'r arian a dderbynir bydd yn bosibl i ehangu oriau agor y caffi. Ar nosweithiau Llun a Gwener rhwng 4.30 a 6.30pm bydd yn bosibl archebu PRYD O FWYD AM DDIM. Mae'r croeso yn agored i bawb.

Dechreuodd y gwahoddiad ar yr wythnos yn cychwyn 13eg o Ionawr, a gan fod y grant yn ymestyn am 8 wythnos bydd y cynnig yn dod i ben ar ddydd Gwener 7fed Mawrth. Yn amlwg, bydd cryn ymateb i'r cynllun a'r argymhelliad yw fod rhywun yn cysylltu ar 07842 261729 o flaen llaw i archebu bwrdd. Os oes plentyn dan 11 yn y grŵp yna rhaid iddynt fod yng ngofal oedolyn dros 18.

Mae'r cynllun i agor siop dal dan drafodaeth a gobeithir gwneud datganiad yn fuan.

Roedd y caffi yn llawn ar nos Iau, 16eg Ionawr am noson lenyddol y bu cryn edrych ymlaen ati. Daeth yr awdur Angharad Price 'adref' i gynnal sgwrs gyda Anita Owen. Testun y sgwrs oedd nofel ddiweddaraf Angharad sef *Nelan a Bo* a leolir ym Methel ddwy ganrif yn ôl. Gobeithiwn gael adroddiad mwy estynedig am y noson yn y rhifyn nesaf.

Ar bnawn Sadwrn, 25ain Ionawr cynhelir Tê Pnawn rhwng 2.30pm a 4.00pm i ddathlu dydd Santes Dwynwen. Y pris yw £16 yr un a gofynnir i chwi archebu o flaen llaw.

**Nadolig y Cysegr**
Daeth cynulleidfa dda i gefnogi y plant yn eu gwasanaeth Nadoligaidd eto eleni. O'r lleiaf i'r mwyaf trosglwyddwyd neges bwrpasol ar air a chân gan y plant. Cafwyd anerchiad byr i'r plant gan y Gweinidog Nerys Griffith. Cyfeiriodd hi at ffyddlondeb y plant yn mynychu yr Ysgol Sul yn rheolaidd. Y mae'r twf yn nifer y plant yn un o lwyddiannau y Capel, ac mae'r berthynas rhwng y plant a'r Gweinidog yn un amlwg. Nid oes yr un Sul nad oes chwerthin gan y gynulleidfa o ddilyn y 'drafodaeth'. Mae croeso i unrhyw blentyn ymuno â chriw hwyliog yr Ysgol Sul. Mae ein diolch hefyd i'r ddwy 'Anti' gwerthfawr o athrawon sef Myfanwy a Menna. M and M's yn wir! Dyma ddwy sy'n gallu ymdreiddio i feddylfryd plentyn a denu ymateb.

Caed cynulleidfa deilwng yng Ngwasanaeth y Cymun fore'r Nadolig. Braf oedd croesawu aelodau o eglwysi cyfagos a rhai ymwelwyr wedi dod i ymweld gyda pherthnasau. Braf hefyd oedd gweld teuluoedd yn cyd-addoli, yn blant ac oedolion. Diolch i'r Gweinidog am ein harwain. Daethom yn ôl i'r 'hen drefn' hefyd gyda chyfeiliant y chwechawd o fand – pob un yn offerynwyr o gryn safon. Diolch i Hefin am eu casglu ynghyd.

Unwaith eto y Nadolig hwn rydym yn diolch i Edwina Morris, Treflys, am addurno'r Capel. Roedd yn wir drawiadol gyda'r adlewyrchiad o'r 'stabal' yn wir dynnu sylw.



**Dymuniadau Gorau**
Bu'n ddechrau blwyddyn betrusgar i rai o'n pentrefwyr hŷn gan bod rhaid eu trosglwyddo i ofal Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddynt. Yr un ein dymuniadau i eraill sydd yng nghanol cyrsiau gwrthsefyll afiechyd ar hyn o bryd.

**Oedfaon Chwefror**
Cysegr: 2/2 Gweinidog; 9/2 Karen Owen; 16/2 Parch. John Pritchard; 23/2 Gweinidog
Bethel: Dim oedfaon drwy mis Chwefror









# IONAWR

Hwn yw'r ffin a'r flwydd ar ffo,
hwn esgus sythu'n osgo;
hwn dynged addunedau
hwn â'i bris i lwydd barhau.
Hwn yw cist cyfrin y cof,
hwn hanes newydd ynof.
Hwn ar dân i gynnau'r daith
hwn wybu fy anobaith;
hwn heb air yn y barrug
hwn yw'r un ffals, a'r wên ffug.
Hwn wêl oen, celain ar lawr,
hwn â'i boen yw pob Ionawr;
hwn â'i dreth ddaw at ein drws,
hwn yw Ionawr, ein Ianws.

Richard Lloyd Jones



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Natalia (merch Maria de Lourdes Cruz Perez Aguilar a'r diweddar Miguel Angel Esparza Garcia o Ddinas Mecsico, a mam ofalgar i Gabriela) a Geraint (mab Gwyn a'r diweddar Lynne Brython Edwards o Fryn Dafarn, Llandwrog Uchaf, gynt o dai Cae Rhos, Seion, Llanddeiniolen) ar eu priodas ar 21ain Rhagfyr, 2024 yn Neuadd y Ddinas, Copenhagen, Denmarc. Dymuniadau gorau am bob hapusrwydd i'r pâr priod newydd a'u teuluoedd wrth i ffrindiau o bell ac agos ddathlu'r uniad hwn. Mae'r teulu bellach wedi ymgartrefu yn yr hen gartref yn Seion. Croeso 'adref' iddynt. Diolch i'r ffotograffydd Elena Belevantseva am lun y cwpwl ar eu diwrnod priodas.






**Elusennol**
Dros y blynyddoedd diwethaf daeth rhywun yn ymwybodol o sawl ymdrech leol i godi arian at achosion lleol sydd angen cefnogaeth. Daw apêl Banciau Bwyd neu agweddau o'n Gwasanaeth Iechyd i'r meddwl. Dros y Nadolig bu'r grŵp Speed Freaks Car Club yn codi arian at rhai adrannau yn Ysbyty Gwynedd – wardiau Alaw a Dewi, yr adran Dibyniaeth Uchel a'r adran Gofal Dwys. Cynhaliwyd raffl, cyfraniadau unigol, noson tân gwyllt i gyd tu fewn i'r 'gymdeithas' ceir a ddenwyd yn aelodau o'r clwb. Arweinwyr y clwb yma yw dau o Fethel – Tarryn Bennett a Stephen Roberts. Gwelir y ddau ac ambell i aelod arall yn y llun yn cyflwyno siec am £500 i'r Ysbyty. Ar noson y cyflwyniad roedd aelodau'r clwb wedi amgylchynu prif fynediad yr ysbyty gyda cheir wedi eu haddurno yn Nadoligaidd.

## Merched y Wawr

*Cyfarfod Mis Rhagfyr*
Cawsom ddathlu'r Nadolig yn y Wal yng Nghaernarfon, pryd cafwyd noson ddifyr a bwyd blasus. Gan fod y gangen yn dathlu'r hanner cant yn 2025, roedd Liz Watkin y Llywydd wedi paratoi cwis ar sefydliad arall o'r un oed sef Pobol y Cwm! Roedd nifer yn cofio yr hen straeon, ac roedd yna hen drafod pwy oedd pwy a pha straeon oedd wedi aros yn y co'.

Darllenwyd cyfarchion Nadolig gan Geunor y Llywydd Cenedlaethol, gan nodi hefyd fod yna £11,968.01 wedi ei godi at Ambiwlans Awyr dros y 13 mis diwethaf, drwy werthu sgarffiau a mwclis.



Anfonwyd cofion at Mary Evans a Nan Rowland wrth iddynt dderbyn triniaethau.

Enillwyd y raffl gan, Alys, Wendy, Bet a Gwyneth Jones.

*Cyfarfod Mis Ionawr*
Ar noson oer mentrodd criw dewr i'r neuadd i gadw'n gynnes efo Rhun Hughes o ganolfan Byw'n Iach Arfon, gan brysuro i ddweud mai dod i'n helpu i hybu ein ffitrwydd drwy ymarfer corff a wnaeth! Yr oedd wedi gosod llwybr o weithgareddau gwahanol o amgylch y neuadd a oedd wedi eu hanelu at ymestyn gwahanol rannau o'r corff. Er fod yna ambell gymal stiff, yr oeddem wedi cynhesu dipyn ac wedi hen haeddu y baned a baratowyd gan Mair Read, Eirlys ac Anita. Diolchodd Anne Elis i Rhun ar ran y gangen, ac fe enillodd Lynnwen y raffl. Os oes rhywun am wneud adduned i gadw'n heini, mae Rhun yn cynnal sawl sesiwn yng Nghaernarfon.

Wrth ein croesawu ar ddechrau'r cyfarfod, yr oedd Liz y llywydd yn falch o gyhoeddi fod Bet a Seiriol yn hen nain a taid am y tro cyntaf. Bydd y gangen yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 eleni, ac fe fu trafodaeth ar ddiwedd y cyfarfod ar sut ydym am ddathlu – felly fel ma' nhw'n ddeud 'gwyliwch y gofod'!





# Ysgol Bethel

**Plannu bylbiau**
Bu disgyblion hynaf yr ysgol yn helpu i blannu llu o fylbiau Cennin Pedr cyn y Nadolig tu allan i furiau'r ysgol. Y cynllun ydy ein bod yn pigo ardal wahanol bob blwyddyn gan ddefnyddio bylbiau gwahanol. Mewn rhai blynyddoedd bydd y pentref (gobeithio) yn wely o flodau'r gwanwyn.



**Sesiwn Samba**
Bu blwyddyn 5 yr ysgol yn mwynhau sesiwn Samba yn Ysgol Brynrefail cyn y Nadolig. Roedd nod y sesiwn yn fwy na cherddoriaeth, roedd yn anelu i gychwyn y broses o drosi o un ysgol i'r llall, fel pan ddaw'r amser iddynt fynd i flwyddyn 7 eu bod yn gyfforddus yn mynd.




**Cardiau Nadolig Cyfnod Sylfaen**
Roedd disgyblion dosbarth Derbyn blwyddyn 1 a 2 yn awyddus i wasgaru hud y Nadolig, ewyllys da yn ogystal â bod yn berson caredig i bentref Bethel. Bu'r disgyblion yn brysur yn llunio a chreu cardiau Nadolig cyn mynd ar daith o amgylch y pentref, dewis tai ar hap a phostio eu hanrheg i'r pentrefwyr.



**Dosbarth Meithrin yn postio eu llythyrau i Siôn Corn**
Cerddodd disgyblion ieuengaf yr ysgol o amgylch y pentref cyn y Nadolig er mwyn postio llythyrau go arbennig. Roedd y disgyblion i gyd wedi cynhyrfu wrth bostio eu llythyr i Siôn Corn.





# Atgofion tim pêl-droed Llanbabo a chymeriadau yn y 50au

Newydd gael swp o gopis o'r Eco gan fy hen ffrindiau Delyth ac Alwyn Pen y Gaer, ac fel arfer maent yn dwad ac atgofion melys am yr hen ardal. Teyrnged fendigedig ac addas gan Richard Lloyd Jones i'r annwyl Eifion Cefn Gwyn; ei gofio fo'n iawn yn chwarae i Lanbabo yn y pum degau, chwaraewr cryf a medrus, wedi torchi ei lewys, yn chwys doman a'r bochau yn goch, 100% pob tro. Atgofion hefyd am ei dad Huw Cefn Gwyn, wedi cael ambell sgwrs ddifyr a pheint neu ddau yn y Cysegr arall yn Bethal (Gors Bach). Fel mae Rich yn dweud roedd ganddynt ddawn arbennig i ddod a gwên i'n hwynebau.

Mi wneis joio yn fawr iawn erthygl Eryl Hughes (Huws Bach). Roedd Eryl yn arwr i mi pan yn hogyn ifanc. Sôn am chwaraewr, os dwi'n cofio'n iawn roedd yn chwarae i dîm Llanbabo pan oedd yn brin bedair ar ddeg oed. Roedd yn sionc a neb yn medru dal i fyny hefo fo ar y cae pêl-droed na mewn ras sprint. (Roedd Cynrig, ei frawd bach, yn dipyn o wibiwr hefyd). Ar ben pob dim roedd ganddo droed chwith fel 'magic wand' a does dim dowt o gwbl fod Eryl yn un o chwaraewr gora ddoth o ardal Llanbabo. Er i ni'n dau fyw a gweithio yn Wolverhampton y tro cynta i mi weld Eryl ers blynyddoedd oedd ar achlysur agor y cae pêl-droed newydd (San Siro Stadium), roedd y ddau ohonom ag eraill wedi cael gwadd gan yr unigryw Mr Llanbabs Alun Wyn. Tro diwetha' welis Eryl roedd yn yr Eidal; dod ar ei draws ar ein gwyliau, cyfarfod pob bore am goffi a sôn am yr hen ardal am wythnos bron!!

Roedd tad Eryl, Wil Iolen yn athro arnaf yn Ysgol Brynrefail, hen foi iawn. Buodd o a'i wraig yn ffeind iawn efo ni trwy roi aml o lifft i fam Gwen (y wraig) o Bethal i'n gweld yn Wolverhampton pan roeddynt yn mynd i ymweld ag Eryl a'i deulu. Eryl yn fy atgoffa yn ei erthygl am yr enwog Wyn Davies yn chwarae i Lanbabo. Er na Cofi i'r carn oedd Wyn, fel llawer o lafnau Caernarfon 'radeg hynny roedd yn gweithio yn chwarel Dinorwig. Roedd *commitee* y clwb pêl-droed yn chwarelwyr hefyd fel Gwilym R, Alun Wyn, Yncl Siôn Bach, ac yn gwybod amdano. Roedd ein *'centre forward'* disglair a prif sgoriwr y gyngrair, Arfon Llanber wedi torri ei goes ag roedd rhaid chwilio am un newydd. Mawr fu'r son yn y pentra fod gennym '*centre forward* ' newydd ' sef 'Cofi ifanc yn gweithio yn y chwaral a bod i gêm gyntaf ar y Dydd Sadwrn canlynol'. Dwi'n cofio criw ohonom yn disgwyl bus Crosville o dre yn y bus stop wrth capal Eban i weld ein '*centre forward*' newydd. Dyma lanc ifanc main tal , gwallt cringoch *crew cut* yn dod lawr y grisiau o'r top *deck* gyda '*duffle bag*' ar ei ysgwyd. 'Sa rywun yn gwbod lle ma' cae ffwtbo?l' A ninnau'n ei dywys i'r 'stafelloedd newid, tŷ yn New Sreet. Roedd pawb yn edrych ymlaen i'r gêm, yn erbyn Llandegfan (am ryw reswm roedd Llandegfan yn chwarae yn y Caernarfon and District ac nid yn yr *Anglesey league*) , curo yn hawdd wnaeth y *Quarrymen* a Wyn yn sgorio pedair neu bump o goliau, y rhan fwy gyda hedars. Wnai byth anghofio rhai o'r hen stejars yn dweud ar ôl y gêm, "chwaraewr reit dda, ond ddoith byth i sgidia Arfon."!

Pan roedd Wyn yn chwarae a byw i ffwrdd yn enwedig ar ôl ymddeol fe fyddai yn dwad i ardal y chwaral yn aml am dro hefo'i gi defaid ac roedd wrth i fodd yn sgwrsio am yr hen amser. Roedd Eryl yn sôn am golli peli yn yr afon ond be dwi yn cofio ydi pan roedd y dyfarnwr yn cae gêm wael y floedd gan y cefnogwyr oedd, "i'r afon a fo" a llawer gwaith fyddwn yn gweld dyfarnwr yn brysio lawr lôn Penbont ar ôl y chwiban olaf. Peth arall dwi'n cofio ydi mynd i siop James cyn y gêm i nôl rhyw ddeg o orenau Outspan a thorri nhw gyda cylleth bocad (roedd bron pawb hefo un yr amser hynny) yn chwarteri i roi i'r chwaraewyr hanner amser ag i'r dyfarnwr os oedd yn plesio! Y gemau mawr fydda 'brwydro' yn erbyn Mynydd Llandegai a Llanrug, hefyd cael tripiau cyn belled â Nefyn a Mountain Rangers a bob amser joio mynd i Fangor (DFM a Athletic), Besda, Caernarfon a Llanber. Un o'r tima gorau oedd Penrhos, gyda chwaraewyr profiadol fel Maldwyn Evans, a byddai yn gêm glos iawn yn erbyn rhein bob amser.

Dwi'n cofio'r hen hogia yn chwarae i Ddeiniolen ac o fewn fy nghof i, dyma'rt tîm gorau fuaswn i yn ei ddewis yr adeg hynny. Cofiwch doedd dim '*squad* 'na *subs*. Golgeidwad fase rhwng Jackie Gwynfryn, y ddau gefnwr *(full backs*) fase Huw Bach a Cled, *Half backs*—Robat Defi, Gwil Lloyd ac Ifan Cae Corniog, y ddau asgellwr Eifion Cefn Gwyn, Eryl, Ffetch bach Penisarwaun (tad Maldwyn, Morgan Evans,) *inside right* a *centre forward* Arfon neu Wyn Davies, a buaswn yn cael chwaraewr gwadd sef Malcolm Allen i orffen y tîm. Rhaid cofio fe ddaru Malcolm chwarae i dimau ieuenctid Llanbabs ac felly mae yn '*qualiffeio*'. Mae gen i gof fod ei daid Frank wedi chwarae i Ddeiniolen ar un amser ac mi oedd ei yncl Percy Allen brawd ei dad, Glyn o Lanber, yn chwaraewr penigamp. Mae chwarewyr da eraill yn dod i'm meddwl ddaru ddim cael cyfle i chwarae yn gyson i Llanbabo am resymau gwahanol e.e. roedd *'call ups'* i'r fyddin yn bodoli ar y pryd, a rhai hogia ddaru dyfu fyny pan nad oedd tîm yn y pentref. Hogia fel Ifan Wyn, Dafydd Wyn, Elwyn, Tomi Jos, Jonah (Gwyndaf mab Gwilym R a chwaraeodd i Fangor), Wil Bach (Irfon Thomas , Dinorwig, (dipyn o chwaraewr a gafodd gap i Gymru), Ronnie Butch, Mintan (Gwil Tate) a dwi'n siwr fod llawer mwy faswn yn cofio a fase'n nhw wedi cael y cyfle.

Dim pêl droediwrs yn unig oedd yn Llanbabs: roedd cricedwyr o fri fel Pancho (Huw Tan Graig), Proff (Islwyn Roberts), Ifan Wyn a Dyfrig Thomas. Athletwyr hefyd fel Eryl Hughes ac wedyn Michael Lloyd (Santos) a gurodd pob cystadleuaeth yn Ysgol Brynrefail o'r *sprints* i'r *shot putt* mewn un diwrnod, dipyn o gamp. Ymysg gwibwyr y fro roedd Eryl eto, Hadyn a Gwyn Rhiwen, Llion Price a'i gefnder Brian Price hefyd Ffidler (Teifion Parry) yn enwedig pan oedd Jos plisman y pentra yn rhedeg ar ei ôl.

Diolch eto i Eryl Hughes am ddod a'r atgofion yn ôl i mi. Gorffennaf drwy ddymuno pob llwyddiant i'r tîm pêl-droed sydd wedi ei sefydlu unwaith eto, pob lwc hogia a daliwch ati.

**Hywel Roberts (Ben)**




Peiriannydd Carafan Teithiol
MD
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

ADVANCED AVW VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk
BOSCH Service

# CAEATHRO

**Capel**
Ar yr 2ail Chwefror, bydd Gwasanaeth, dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00pm. Ar yr 16eg Chwefror, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Iwan Llywelyn Jones, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Manx Utilities**
Ar ddiwrnod olaf ail-gysylltu trydan i eiddo'r fro yn dilyn colli'r cyflenwadau yn ddiweddar, cafwyd ymwelydd i flaengwrt Garej Caeathro, sef fan 'MANX Utilities. Wrth edrych eto, gwelwyd fod enw'r corff hefyd yn yr iaith Fanaweg.

Roedd gweithwyr y fan, a cherbyd arall ar y blaengwrt, wedi dod draw i Gymru er mwyn cynorthwyo gweithwyr lleol. Wrth siarad gydag un o'r hogia', dywedodd fod ei fab yn dysgu Manaweg mewn Ysgol gynradd leol ar yr Ynys. Uchelgais y mab oedd gweithio fel cyfreithiwr a chyrraedd y brif swydd gyfreithiol ar yr Ynys, sef swydd y *Deemster*, swydd ble mae gwybodaeth o'r Fanaweg yn angenrheidiol.




Roedd y gweithiwr yn medru cyfrif eu hunain hyd at ddeg yn yr iaith – *unnane, jees, tree, kiare, queig, shey, shiaght, hoght, nuy, jeith.* Yn ogystal â gwersi Manaweg mewn rhai ysgolion cynradd ar yr ynys, mae ysgol gynradd cyfrwng Manaweg ym mhentref St. Johns yng nghanol yr ynys ger y brif dref, sef Douglas.

**Clwb Garddio Caeathro**
Yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2024, croesawyd Jill Evans, Blodau Bach, Caeathro.

Roedd Jill wedi dod atom i'n dysgu sut i wneud trefniant blodeuol i osod ar y bwrdd ar gyfer y Nadolig. Dechreuodd wrth roi arddangosiad i ni o'r camau sydd angen eu cymryd.

Yna, aeth 10 o'r aelodau ati i ddewis eu dail, blodau ac ategolion. Llwyddwyd i greu gosodiadau deniadol gyda'r aelodau yn creu ystod o ddyluniadau creadigol.

Diolchwyd i Jill am ei pharodrwydd i ddod atom i rannu ei sgiliau blodeuwriaeth. Rydym yn gobeithio y bydd Jill yn dychwelyd y flwyddyn nesaf i'n helpu.

Diolch i Megan, Delyth ac Ellen am baratoi mins peis a chacen siocled i fynd hefo'r baned.

**Diolch**
Dymuna O.H. Williams (Owie), 19 Teras Glan Gwna, Caeathro ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

# PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Pnawn Mercher, 18fed Rhagfyr, am 1.30pm treuliwyd orig hyfryd ar y cyd â phlant yr ysgol gydag eitemau clodwiw gan y plant a darlleniadau Nadoligaidd gan Phyllis ac Ann, aelodau Pwyllgor y Neuadd Gymuned. Cafwyd cyfle i gyd-ganu ambell i garol, a sgwrsio dros baned a mins pei. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn.

Tynnwyd Clwb Cant Ionawr, gan erfyn am aelodau newydd i ymuno er budd y gost o redeg y Neuadd Gymuned hyfryd sydd gennym. Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor am y rhoddion i'r raffl, am y mins peis blasus ac i Gwyn a Delyth am eu gwaith diflino yn y gegin yn ystod y pnawn.

Anfonwn ein cofion gorau at Catrin, Pennaeth yr Ysgol, gan ddymuno adferiad buan yn 2025.

Edrychir ymlaen am eich cefnogaeth eto eleni gyda'r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal ddechrau Mawrth i ddathlu dydd ein Nawddsant.

**Prosiect Pum Mil**
Bydd rhaglen Prosiect Pum Mil ar drawsnewidiad Neuadd Santes Helen yn cael ei dangos ar S4C ar nos Sul, Mehefin 1af. Mae cryn edrych 'mlaen at ei gweld!

**Baby Brahms**
Cynhelir sesiwn i fabanod a phlant ifanc yn Neuadd Santes Helen ar fore Gwener 31ain o Ionawr, am 10.00am. Bydd cyngerdd clasurol i'r rhai bychan, a chyfle i chwarae gyda'r offerynnau. Mynediad yn £8 o flaen llaw, neu £10 ar y drws, i gynnwys paned a chacen. Croeso i bawb.


ECO'r Wyddfa



Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com






Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# LLANBERIS

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hafnon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Ionawr, Chwefror a Mawrth**
*Ionawr:*
26ain, 2.00pm – Y Parchg Anna Jane Evans

*Chwefror:*
2il, 4.00pm – Y Parchg Bryn Williams
9fed, 2.00pm – Mrs Megan Lloyd Williams
16eg, 2.00pm – Y Parchg Gwilym Williams
23ain, 2.00pm – Y Parchg Olaf Davies

*Mawrth:*
2il, 10.00am – Y Parchg John Pritchard

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Chwefror:
Noder amser newydd y gwasanaethau o hyn ymlaen.
Chwefror 2, 9:30yb – Cymun Bendigaid
Chwefror 9, 9:30yb – Boreol Weddi
Chwefror 16, 9:30yb – Cymun Bendigaid
Chwefror 23, 9:30yb – Cymun Bendigaid

Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr
1) Owain Rees Jones 2) Martin Wood 3) Gwyneth Parry









**Ail Agor Cylch Meithrin**
Ar ôl cyfnod ar gau roedd hi'n wych gallu cynnal dathliad i nodi ail agor Cylch Meithrin yn Llanberis, sef Cylch Meithrin Dolbadarn. Mae'r Cylch ar agor yn ddyddiol o 9.00am tan 2.30pm ac yn darparu gofal i blant 2-4 oed. Llongyfarchiadau i'r pwyllgor a'r staff am allu ail sefydlu'r ddarpariaeth a diolch i'r holl unigolion a phartneriaid yn y gymuned fu'n allweddol i'r ail agoriad.

Yn y lluniau gwelir Lois Jones (Cadeirydd y pwyllgor [top piws]) a Buddug Hughes (Cydlynydd Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin), Cyd-Arweinyddion y Cylch (Rhiannon a Caroline) yn torri'r gacen, Gwenllian Lansdown Davies (Prif Weithredwr Mudiad Meithrin) yn torri'r rhuban gyda Caroline, Rhiannon a Delyth Jones (Rheolwr Talaith y Gogledd Orllewin Mudiad Meithrin).



Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30am a 2.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Peris**
Bydd gwasanaeth bob bore Sul a bore Mawrth yn ystod mis Chwefror am 9.30am.

**Clybiau crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis** - Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** - yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2.00 - 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Bellach mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.

Diolch yn fawr, Eifion Roberts.

# Cystadleuaeth Addurno Nadolig

Trefnwyd y gystadleuaeth i addurno busnesau gan Pentref Taclus Llanberis. Diolch i bawb ddaru gystadlu a phob lwc flwyddyn nesaf.

Enillwyr y gystadleuaeth oedd:
1af – T W Hairdressing. Hampwr
2il – Pizza a Peint. Pot o flodau gardd.
3ydd – Hairlines. Hampwr fechan.







# Cronfa Grantiau Newydd LleCHI LleNI

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Grantiau LleCHI LleNI ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng Ngwynedd. Gan adeiladu ar y momentwm o fewn ein cymunedau chwarelyddol yn dilyn dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, prif nod y grant yw:

- cefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw a fydd yn gwella ymgysylltiad cymunedol i bawb
- creu balchder lleol yn nhreftadaeth y tirweddau llechi
- gwella lles a datblygu sgiliau.

**Pwy sy'n cael gwneud cais am y grant?**
Gall **grwpiau cymunedol** sydd â phrosiect sy'n darparu ar gyfer trigolion Gwynedd wneud cais am gymorth drwy Grant Cymunedol LleCHI LleNI.

Er y gall unigolion a grwpiau anffurfiol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf isod wneud cais, bydd angen iddynt wneud hynny mewn partneriaeth â grŵp neu sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf. Mae hyn oherwydd ei fod yn helpu i ddangos cefnogaeth o fewn y gymuned i'r cynnig ac er mwyn i Gyngor Gwynedd allu cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer yr arian a ddyrannwyd.

Tra gall Cynghorau Cymuned neu Dref wneud cais bydd angen iddynt ddangos bod y gweithgaredd arfaethedig yn newydd ac nad yw'n rhan o'u gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Faint o arian sydd ar gael yn 2025/26?**
Gallwch wneud cais am grant hyd at £10,000 (cyfalaf neu refeniw).

**Sut mae gwneud cais?**
Mae canllawiau pellach ar sut i gyflwyno cais, a ffurflenni cais, ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, ac mae'r Cyngor yn awgrymu'n gryf eich bod yn trafod gyda Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI cyn cyflwyno eich cais:

Manylion cyswllt Rheolwr Prosiect:
Lucy Thomas;
E-bost: llechi@gwynedd.llyw.cymru
Rhif cyswllt: 07785 469867

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Grantiau-cymunedol--elusennau/Cronfa-LleCHI-LleNI.aspx

Gwybodaeth drwy'r post: Swyddog Cist Gwynedd, Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Erbyn pryd mae angen cyflwyno'r cais?

Mae'r grant yn cael ei ddyfarnu yn chwarterol, ond bydd y 'rowndiau' ymgeisio fydd ar gael yn dibynnu ar faint o arian fydd ar gael bob tro.

Sicrhewch fod y ffurflen gais wedi ei chwblhau a bod yr holl ddogfennau cefnogol a thechnegol wedi eu hanfon (yn ddelfrydol dros e-bost).

**Dyddiadau cau ar gyfer 2025/26**:
21 Mawrth 2025
20 Mehefin 2025
30 Medi 2025
9 Ionawr 2026

# CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Ar noson yr Hen Galan, Ionawr 13eg, croesawyd arweinydd newydd i Gôr Meibion Dyffryn Peris.

Mae Gwenno Pritchard, sy'n byw yn Llanrug, wedi dechrau ar y gwaith. Mae hi'n ddarlithydd Cerddoriaeth yng Ngholeg Meirion Dwyfor, yn wraig i Dafydd ac yn fam i Lleu.

Fe ddaeth swydd yr arweinydd yn wag am fod Sian Wheway wedi ildio'r baton. Mae'r hogiau eisiau diolch yn ddiffuant iawn i Sian am ei hymroddiad i'r Côr.

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn maent yn hynod o falch fod Gwenno wedi dod atynt. Gobeithio yn wir y bydd yn hapus iawn yn eu plith.

A cofiwch mae bob amser groeso i unrhyw aelod newydd ymuno a'r Côr. Mae ymarferion yn cael eu cynnal ar nos Lun, yn y Ganolfan yn Llanberis am 7.30 o'r gloch.



Gwenno yn arwain ei hymarfer cyntaf



Siân





# Nodiadau Natur

Trafodwyd dau aderyn y mis diwethaf, sy'n ymwelwyr yn ystod y gaeaf, yn enwedig pan yw'n oeri ac yn eira, sef y coch dan adain a'r socan eira. Debyg eich bod wedi eu gweld yn y caeau yn ystod dyddiau oer dechrau Ionawr eleni. Ond wrth i'r eira ddechrau cilio a'r gwair ar y lawnt yn dod yn ôl i'r golwg mae fy meddwl yn troi at dywydd cynhesach ac rwyf yn dechrau chwilio am arwyddion bod y gwanwyn ar ei ffordd.

**Arwyddion y gwanwyn**

Un peth sy'n digwydd erbyn canol mis Ionawr yw bod y dydd yn dechrau ymestyn. Bu'r dydd byrraf ar yr 21ain Rhagfyr, sy'n golygu, yn ôl fy wats clyfar bod machlud haul i'w weld bellach am 4:24pm yn hytrach na 4:00pm yn ystod y mis cynt. Arwydd pendant bod y gwanwyn ar y ffordd.

Mi fyddai'n chwilio am arwyddion wrth gerdded o gwmpas yr ardd ac ar hyd llwybrau bro'r Eco. Roeddwn i'n synnu gweld dau ditw tomos glas yn mynd i mewn i un o'r bocsys adar y bore o'r blaen, gawson ni nythiad o gywion llynedd, felly gobeithio'n arw y gwelwn ni gywion eto eleni. Mae'r llinos bengoch wedi ymweld â'r bwydwyr, sydd yn gynharach nag arfer, yn ôl fy nghofnodion natur a garddio.

**Grifft**

Cyn bo hir mi fyddai'n dotio o weld grifft llyffant yn y ffosydd o gwmpas y lle yma, sy'n sicr yn arwydd bod y gwanwyn ar ei ffordd. Mae'r clystyrau hyn o jeli yn cynnwys embryonau ac yn ymddangos mewn pyllau o ddiwedd Ionawr ymlaen. Mae llyffantod yn aml yn dychwelyd i'r un pwll i silio (dodwy wyau). Mae'r clympiau mawr yma o jeli yn perthyn i'r llyffant.



**Grifft a grifft llyffant melyn**

Fodd bynnag os ddowch chi o hyd i linynnau o rifft mae wedi ei ddodwy gan y llyffant melyn (*toad*).

Ymhen ychydig wythnosau mi fydd y jeli a'r dotiau duon, yn troi'n debycach i atalnodau cyn troi'n benbyliaid ac erbyn diwedd yr haf mi fydd yna lyffantod bach. Da ydy natur.



**Penbyliaid**

**Eirlysiau**

Mae eirlysiau'n arwydd hyfryd bod dyddiau mwy disglair yn dod. Mae'n llawenydd llwyr i'w gweld - yn codi ein hysbryd yng nghefn gaeaf. Dyma'r blodau cyntaf i ymddangos ac maent yn tyfu mewn coetiroedd neu ger nentydd. Oherwydd mod i'n byw dros fil o droedfedd i fyny, o dan lethrau Moel Rhiwen, maent bob amser yn hwyrach yma nag yn is i lawr. Ond maent yn llonni calon o'u gweld yn yr ardd ac ar hyd ochrau'r ffyrdd gwledig. Mae sawl enw iddynt. *Galanthus nivalis* yw'r enw Lladin arno. Eirlys yw'r enw fydda i'n ei ddefnyddio ond caiff hefyd ei alw'n Lili Wen Fach, Cloch Maban, Cloch y Baban, Cloch yr Eiriol, Mws yr Eira, Tlws yr Eira a Blodyn yr Eira. Beth fyddwch chi'n ei ddweud? Erstalwm arferwyd dathlu Gŵyl Fair y Canhwyllau (*Candlemass*) ar y dydd yr agorodd y petalau sef yr 2ail Chwefror. Daw'r enw o seremoni cyn-Ddiwygiad o fendithio canhwyllau, eu dosbarthu a'u cario nhw mewn gorymdaith. Tardda'r seremoni Gristionogol hon o wyliau Paganaidd sy'n gysylltiedig â'r gwanwyn.



**Eirlysiau**

**Llygad Ebrill**

Dyma flodyn bach sy'n felyn llachar, sydd yn ei flodau ymhell cyn mis Ebrill. Planhigyn coetir ydy'r rhain sydd hefyd yn tyfu mewn mynwentydd a pharciau o dan wrychoedd. Mae'n darparu neithdar gwerthfawr i bryfed cynnar.



**Llygad Ebrill**

**Cynffonnau ŵyn bach**

O edrych i fyny mi welwch chi arwyddion eraill bod y gwanwyn ar ei ffordd. Mi fyddai'n gweld y rhain am y tro cyntaf ar waelod allt Nant Garth fel arfer, ac yn dotio! Blodau gwryw coed cyll ydyn nhw ac maent yn ymddangos ar y coed yn gynnar yn y gwanwyn. Os oes awel maent yn siglo, yn union fel cynffonnau wyn bach pan fyddant yn cael diod gan eu mam.



**cynffonnau ŵyn bach**

**Cywion gwyddau bach**

Mae'r blodau blewog hyn yn ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn, dipyn o amser cyn i'r dail ymddangos. Mi allwch weld yn hawdd sut gawson nhw eu henw.



**Cywion gwyddau bach**

Y newyddion da ydy bod y gwanwyn ar ei ffordd. Mi all y mis bach (Chwefror) a mis Mawrth fod yn oer, gwlyb a gwyntog, ond fe ddaw haul ar fryn a chyn bo hir cawn fynd am dro heb gôt a het a menig ac eistedd allan i fwynhau paned yn hytrach na chlosio at y tân.

Ewch ati i chwilio am arwyddion o'r gwanwyn, a'u mwynhau.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD 12FED TACHWEDD,2024

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

**Materion o'r Cofnodion.**
**Llythyr Diolch** - Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Neuadd Penisarwaun.
**Partneriaeth Dyffryn Peris** - Yn dilyn cysylltu ynglŷn â'n pryderon, penderfynwyd fod cynrychiolydd o'r grŵp am ddod i drafod ymhellach yn ein cyfarfod mis Ionawr.
**Bont Brynrefail** - Derbyniwyd ymateb gan yr adran traffic yng Nghyngor Gwynedd, os bydd ceir neu faniau ar y Bont ac yn nadu cerbydau neu fysus fynd heibio, mae angen cysylltu â'r heddlu yn syth.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Gor-yrru ym Mhenisarwaun** - Dywedodd y Cynghorydd Sir bod ceblau yn mynd i gael eu gosod i weld faint o or-yrru sydd yn digwydd, gan fod cymaint o gwyno yn y ddau ben o'r pentref.
**Cysgodfa Bws Gwaelod Bethel** - Nodwyd fod y paneli ar y gysgodfa bws wedi ei chwalu yn y storm. Mae'n debyg fod y paneli yn denau iawn. Am edrych os oes posib gosod rhywbeth cryfach yn y gysgodfa.
Gwrychoedd ochr Lôn Castell - Mae'n ymddangos nad ydi'r gwrychoedd wedi cael eu torri, ac yn wir angen sylw. Hefyd mae mieri yn isel ar ochor y lôn sydd yn nadu cerddwyr i symud i'r ochor pan fu ceir yn dod ar hyd y ffordd. Hyn yn wir am Lôn Waun i Gapel Glasgoed hefyd.

**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
***C24/0977/18/LL- Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu, Llanberis***
Gwaith adfer i'r safle yn cynnwys addasiadau mewnol ac allanol.

***C24/1006/18/LL - Cylch Meithrin Deiniolen***
Gosod uned fodiwlar 4 Bae Newydd yng nghefn y feithrinfa bresennol, i wasanaethu fel gofod ychwanegol a'r holl waith cysylltiedig.

***C24/0993/18/LL - Ynys Lwyd, Llanddeiniolen***
Estyniad i adeilad amaethyddol ac adeiladu storfa slyri o dan y ddaear.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG TACHWEDD 2024

1. **Estynnwyd croeso** i bawb gan y Cadeirydd, gan gychwyn trwy fynegi cydymdeimlad â'r Cynghorydd Richard Robinson ar ei brofedigaeth.

2. **Cadarnhawyd cofnodion** cyfarfod y 15ed o Hydref yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. **Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry** Jones (aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd). (Copiau o'r adroddiad i'w cael gan y Clerc)

4. **Ystyried cais gan Bartneriaeth Dyffryn Peris** (manylion wedi eu cylchredeg)
Adroddwyd fod Partneriaeth Dyffryn Peris wedi ei sefydlu ac wedi gwneud cais am £3,000 o arian gan y Cyngor. Nodwyd fod cais wedi ei wneud at gynghorau cymuned oddi fewn i'r ardal ac y byddai'n ofynnol i ychwanegu'r swm yma at y praesept ar gyfer 2025/2026.
Penderfynwyd: Cytuno i gyfrannu £3,000 i Bartneriaeth Dyffryn Peris mewn egwyddor, a'r clerc i sicrhau fod y gwariant yn bodloni deddfwriaeth ble gellir cytuno i'r cyfraniad.

5. **Cyflwyno sylwadau ar y 'Cyfnod Galw'** ar gyfer Cynllun datblygu Lleol Gwynedd.
Penderfynwyd: Yr aelodau i adnabod cyfleoedd perthnasol ac i adrodd yn ôl yn unigol ar y cynllun.

6. **Ystyried Cais Cyngor Cymuned Llanystumdwy**.
Adroddwyd fod cais wedi ei dderbyn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy i gefnogi'r canlynol-
"Cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn credu bod dynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn."
Penderfynwyd: Cefnogi cais Cyngor Cymuned Llanystumdwy.

7. **Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**.
Ymysg yr eitemau a drafodwyd -
a) Fod y contractwr yn parhau i wneud gwaith ar y caeau chwarae.
b) Bydd y contractwr yn dechrau ar y parc sglefrio .
c) Holiadur offer chwarae i fynd i'r ysgol gynradd.
ch) Cyfarfod ag unigolyn ar barc sglefrio Cwm y Glo i drafod cais wedi ei dderbyn i ofyn caniatad i osod coed ffrwythau o gwmpas ar gyfer budd a lles y gymuned.
d) Trefniadau Nadolig.
dd) Hyfforddiant ar gyfer y diffibs mis Ionawr 2025.
e) Cysgodfa bws ar gyfer ardal Glyntwrog-Disgwyl ymateb gan y contractwr.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

8. **Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**
Rhai o eitemau a drafodwyd:
a) Penderfynwyd symud ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu waliau o gwmpas tir ar gyfer estyniad i'r fynwent.
b) Penderfynwyd cwblhau gwaith iechyd a diogelwch i uwchraddio'r ugain diwethaf o gofebion oedd wedi eu hadnabod fel rhai oedd angen y sylw mwyaf. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud ar y stecs ar feddi eraill.
c) Ar ôl derbyn cyngor gan y contractwr fe fydd un toriad gwair arall yn y fynwent y flwyddyn yma.
ch) Mae'r is-bwyllgor wedi cytuno i gais am gymorth i ddelio gyda tir oedd wedi suddo o flaen bedd. Bydd digwyddiadau eithriadol fel hyn yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad nesaf o reolau'r fynwent.
d) Penderfynwyd ar destunau'r arwyddion oedd i'w harchebu: parcio, cau giatiau, rhybudd ar fynediad i'r cwt.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

9. **Ceisiadau Cynllunio**.
a) **Rhif y Cais: C24/0688/23/LL**
Mynedfa gerbydol newydd i drac personnol. Ty Isaf, Ceunant.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
b) **Rhif y Cais: C24/0910/23/DT**
Dymchwel modurdy presennol. Adeiladu estyniad deu lawr ochr i'r eiddo.Hafod Owen, Ceunant.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
c) **Rhif y Cais: C24/0906/23/LL**
Newid defnydd tir i ddarparu 17 o leiniau carafanau teithiol/gwersylla ychwanegol fel rhan o faes carafanau a gwersylla presennol. Llys Derwen Camping and Caravan Site, Ffordd Minffordd, Llanrug.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
ch) **Rhif y Cais: C24/0927/23/RA**
Mae'r ymgeisydd yn dymuno ymuno mewn cytundeb Adran 106 er rhyddhau amod 2 ar ganiatad rhif C24/0232/23/LL.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
d) **Rhif y Cais: C24/0622/23/DT**
Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer. 2, Bryn Hyfryd, Cwm y Glo.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
dd) **Rhif y Cais: C24/0881/23/LL**
Gosod blwch storio gerllaw blwch storio arall ar gyfer defnydd yr ysgol. Cyngor Gwynedd, Ysgol Brynrefail, Llanrug.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.

# CHWILAIR MIS CHWEFROR - PAPURAU NEWYDD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | A | R | W | O | L | A | E | Th | A | U | Dd | P | A | P |
| N | E | Y | P | E | N | A | W | D | A | U | Y | U | R | N |
| Dd | I | W | O | N | I | S | B | E | N | A | W | D | A | U |
| A | B | J | E | C | T | R | E | F | N | U | Y | E | W | A |
| C | T | F | Ng | O | W | S | R | C | A | R | T | Ŵ | N | Th |
| R | Y | D | S | L | U | T | Th | R | I | C | N | S | Y | E |
| Y | R | O | E | O | L | E | Y | E | M | A | O | Dd | R | A |
| C | O | L | O | F | N | Y | G | O | L | Y | G | Y | Dd | G |
| S | G | W | R | N | Ô | L | L | U | S | H | Y | M | O | I |
| A | Dd | Y | C | D | W | Y | A | T | A | I | L | N | D | D |
| M | E | LL | U | N | I | A | U | E | Th | D | O | N | I | E |
| N | O | I | B | E | S | Y | B | S | Y | H | G | B | P | N |
| N | O | E | A | R | A | W | Ch | E | L | W | A | Ch | Y | E |
| Z | A | R | Y | W | B | E | H | O | G | C | Rh | Y | I | G |
| I | T | U | D | A | L | E | N | F | L | A | E | N | J | R |

Heblaw prynu'r Eco sut fyddwch chi'n cael eich newyddion? Teledu? Radio? Cyfryngau cymdeithasol?

Neu fyddwch chi'n prynu papur newydd bob dydd, boed hynny mewn print neu microffilm neu'n electronaidd?

Ta waeth, mae'r holl eiriau yn chwilair y mis hwn yn ymwneud â phapur newydd.

Cewch yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

- **CARTŴN**
- **CHWARAEON**
- **COLOFN**
- **COLOFN Y GOLYGYDD**
- **CROESAIR**
- **ERTHYGLAU**
- **GENEDIGAETHAU**
- **GOHEBWYR**
- **HYSBYSEBION**
- **IS-BENAWDAU**
- **LLUNIAU**
- **MARWOLAETHAU**
- **PENAWDAU**
- **RHAGOLYGON TYWYDD**
- **TUDALAEN FLAEN**

## ATEBION I CHWILAIR IONAWR 2025 CYFARCHION Y FLWYDDYN NEWYDD

Wnaethoch chi ddod o hyd i'r cyfarchion Blwyddyn Newydd fydd yn cael eu rhannu ar draws y byd?

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | W | B | X | T | M | L | E | D | N | Y | M | F | E | D | Ch | Dd | B | H |
| Dd | G | E | L | U | K | K | I | G | N | I | E | U | W | J | A | R | E | D | G |
| K | O | Y | W | F | I | M | O | N | A | D | H | T | B | Ll | V | Ù | L | K | K |
| S | D | Å | Y | S | F | E | T | S | E | A | U | L | C | E | I | H | T | A | R |
| U | T | O | Dd | L | U | R | Dd | M | P | N | L | U | J | B | D | T | R | D | I |
| N | N | R | Y | G | T | D | F | P | V | O | N | Y | L | U | U | A | Q | B | N |
| A | Y | C | N | M | L | H | Y | R | A | D | I | I | W | A | T | M | N | U | T |
| N | T | O | N | N | A | N | O | U | B | R | O | L | Y | D | R | A | O | R | F |
| N | T | È | E | O | E | B | L | O | K | C | V | L | U | F | È | N | W | D | G |
| O | Å | U | W | W | D | Ù | G | B | K | T | E | A | R | F | N | H | E | L | I |
| U | R | Ch | Y | N | O | E | H | R | A | A | R | R | A | A | G | D | G | K | J |
| F | D | E | Dd | R | H | L | A | M | W | S | I | A | N | S | D | A | U | G | A |
| E | A | L | Dd | E | P | L | H | I | Y | O | M | T | I | A | L | I | R | M | N |
| R | T | X | A | T | R | Z | T | E | V | È | J | U | G | O | D | L | O | B | Z |
| I | P | P | W | U | E | A | L | U | F | I | K | Z | S | T | N | B | K | N | E |
| C | E | D | G | V | S | U | B | O | N | N | E | A | N | N | È | E | U | Th | G |
| I | Y | L | A | D | F | R | O | H | E | S | N | E | U | E | S | J | A | H | R |
| T | Z | O | R | F | E | L | I | Z | A | N | O | N | O | V | O | X | U | I | D |
| A | L | F | U | G | I | D | E | J | A | N | J | A | H | R | P | C | W | Z | O |
| B | L | E | D | H | E | N | N | O | W | Y | D | H | D | A | C | R | O | E | S |

**A GUADS NAIS**
**BLEDHEN NOWYDH DA**
**BLIADHNA MATH ÙR**
**BLOAVEZH MAT**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**BOLDOG UJ ÈVET**
**BONNE ANNÈE**
**BUON ANNO**
**FELIZ ANO NOVO**
**FROHES NEUES JAHR**
**GELUKKIG NIEUWJAR**
**GODT NYTT ÅR**
**HAPPY NEW YEAR**
**MUTLU YILLAR**
**NOWEGU ROKU**
**UN AN NOU FERICIT**






## Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn,** Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

# Tai ym Mro'r Wyddfa







'Tai ym Mro'r Wyddfa' oedd pwnc cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghaffi'r Bedol, Bethel yn ddiweddar.

Dyma ddigwyddiad cyntaf Partneriaeth Dyffryn Peris, sydd yn bwriadu mynd ati i geisio galluogi cartrefi fforddiadwy, perchnogi asedau cymunedol, addasu i'r argyfwng hinsawdd a chynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Sefydlwyd Partneriaeth Dyffryn Peris oherwydd yr angen anferth am dai i bobl leol ac mewn ymateb i'r hyn â fynegwyd gan gymunedau Bro Peris yn ymgynghoriad Ardal Ni 2035, Cyngor Gwynedd. Yr angen am dai fforddiadwy oedd ar frig pryderon trigolion yr ardaloedd rheiny oherwydd diffyg cartrefi addas i'r rhai sydd eu hangen.

Bwriad y cyfarfod cyhoeddus oedd i gynnal trafodaeth agored ar beth ydi prosiect tai dan arweinyddiaeth y gymuned a beth yw'r gwahanol fodelau sydd ar gael.

Clywsom am y nifer uchel o dai gwyliau ac ail gartrefi sydd yn yr ardal, a bod mil o bobol ar restr aros Cyngor Gwynedd am dŷ yng nghymunedau Dyffryn Peris.

Yno yn rhannu eu profiadau a'u harbenigedd yn y cyfarfod oedd Kath Robinson o Cwmpas a Llŷr ap Rhisiart o Ymddiriedolaeth Dir Bro'r Eifl. Clywsom am y mathau gwahanol o brosiectau tai cymunedol sydd yn cael eu cefnogi gan Cwmpas ar hyd a lled Cymru, a bu trafodaeth ar bolisi gosod Ymddiriedolaeth Dir Bro'r Eifl a beth sydd yn bosib o ran blaenoriaethu siaradwyr Cymraeg.

Mae gor-ddatblygu llety gwyliau yn bwnc llosg yn Llanberis ar hyn o bryd gan i gais diweddar ddod gan ddatblygwyr o Loegr i droi pump uned breswyl yn Compton House yn lletyau gwyliau.




Daw'r cais yma ar ôl cyflwyniad Erthygl 4 yma yng Ngwynedd, sydd yn mynnu bod rhaid wrth ganiatâd cynllunio os am newid defnydd tŷ preswyl yn dŷ gwyliau.

Mae Cylch yr Iaith yn un mudiad sydd yn gwrthwynebu'r cais, gan dynnu sylw at ystadegau iaith Llanberis o gyfrifiadau 1992-2021 a gostyngiad parhaus y canran siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod yma.

Mae pryderon am y prinder o dai fforddiadwy ac awydd pobl i gael yr hawl i fyw yn lleol i'w deimlo ar hyd a lled ein cymunedau, a sawl ymdrech yn digwydd i geisio cyfarch rhywfaint ar yr her.

Dyna sydd wrth wraidd busnes newydd Kristina Banholzer, sef 'Catra' - asiantaeth dai amgen sy'n canolbwyntio ar gysylltu pobl â chymunedau mewn ffordd sensitif a chynaliadwy. Cefnogi a hyrwyddo iaith a diwylliant cymunedau yw rhai o'r pethau sydd yn gyrru Kristina, a Bro Peris yw un o'r ardaloedd sydd yn derbyn sylw ganddi wrth iddi hel gwybodaeth ar gyfer ei menter newydd.

Mae un peth yn sicr, mae sawl unigolyn, menter, mudiad a grŵp sydd yn gweld yr angen am dai fforddiadwy yn ardal Bro Peris, ac yn awyddus i weld y tai iawn, o'r maint iawn ac o'r math iawn yn mynd i'r llefydd iawn yn ein cymunedau bregus.

# Tai Gwyliau: Dim Rhagor, medd Cylch yr Iaith

Mae Cylch yr Iaith yn galw ar Gyngor Gwynedd ac awdurdodau lleol eraill fabwysiadu polisi 'Dim Rhagor' mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer tai gwyliau.

Mae hyn yn dilyn cais diweddar gan ddatblygwyr o Loegr i droi 5 uned breswyl yn letyau gwyliau yn Compton House, Llanberis.

Mae'r Cylch wedi gwrthwynebu, gan dynnu sylw at ystadegau iaith Llanberis o gyfrifiadau 1991 – 2021. Medd Howard Huws, Llefarydd Cylch yr Iaith ar Dwristiaeth:

'Er nad yw canrannau ail gartrefi a lletyau gwyliau Llanberis yn gyfuwch, ar hyn o bryd, â rhai ardaloedd eraill yng Ngwynedd, y mae'n ardal sy'n dod tan bwysau cynyddol o du gordwristiaeth, ac y mae hynny'n cyfrannu at ddirywiad cymunedol. Adlewyrchir hynny yng ngostyngiad parhaus y canran siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2021.

'Rhwng 2001 a 2021 gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg o 80.8% i 69.5%. Bu'r diboblogi mewn niferoedd siaradwyr Cymraeg dros 11 gwaith maint y gostyngiad yn y boblogaeth gyfan yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r rhan fwyaf o'r newid hwn i'w weld yn y ddegawd ddiweddaraf. **Petai'r gostyngiadau niferoedd a welwyd rhwng 2011 a 2021 yn cael eu hailadrodd yn y cyfnod rhwng 2021 a 2031, byddai nifer siaradwyr Cymraeg Llanberis fel canran o'r boblogaeth gyfan yn gostwng i oddeutu 45%. Llai na hanner.**

'Mae rhai yn dal i feddwl nad yw dim wedi newid yno ers y 70au, a bod y Gymraeg yn ddiogel yn "hen bentref bach Llanbêr." Mae'n bryd deffro i'r ffaith fod y lle yn gwegian tan bwysau gordwristiaeth, a bod cynnydd ail gatrefi a lletyau gwyliau yn gyrru pobl leol allan o'u cynefin yno fel yn ardaloedd twristaidd eraill.

'Mae Cyngor Gwynedd yn chwarae â'r syniad o osod trothwy o 15% o'r stoc dai ar dai gwyliau ac ail gartrefi yng nghymunedau'r sir: un o bob saith annedd. Ni fyddai hynny ond yn gyrru datblygwyr a phrynwyr i feddiannu tai yn y cymunedau cyfagos sydd heb gyrraedd y trothwy hwnnw eto, ac felly o gymuned i gymuned. Mae darpar-ddatblygwyr Compton House yn crybwyll y trothwy hwnnw'n benodol yn eu cais. Pe caniateid hyn, buan iawn y dilynid nhw yn Llanberis a phob cymuned arall gan ddatblygwyr eraill.

'Nid trothwy sydd ei eisiau, ond atal y twf drwy'r sir ar sail gorddarpariaeth - "**Dim rhagor yng Ngwynedd**". Galwn ar Gyngor Gwynedd i wrthod y cais hwn yn Llanberis, ac i fabwysiadu a gweithredu polisi o atal unrhyw gynnydd yn nhai gwyliau ac ail gartrefi ledled y sir, a gweithio tuag at ostwng y canrannau.


'Mae hyn yn anhepgor ar gyfer diogelu'r stoc dai ar gyfer pobl leol. Mae'n fater o fywyd neu farwolaeth cymunedau a'u treftadaeth. Hebddynt nid oes nac iaith na diwylliant na chenedl.'


**Howard Huws**
Llefarydd ar Dwristiaeth
Cylch yr Iaith.











# Garddio

## CHWEFROR

Mae'r gwanwyn  ar ei ffordd gobeithio.  Roedd dau ditw tomos yn cael golwg ar un o'r bocsys nythu ddoe ac un robin goch yn gwarchod ei diriogaeth.  Ond mae hi'n dal yn oer ac er gweld lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol o gennin pedr cynnar, does na'r un ohonynt nag eirlys wedi gwthio'i ffordd allan drwy'r pridd eto.  Wrth ysgrifennu hwn mae'r eira wedi cilio ond y gwynt wedi codi ac mae'n teimlo'n oer, y gath yn gwrthod mynd allan a thanllwyth o dân yma ers ben bora, gan mod i'n eistedd yn teipio.

Mae'r addurniadau Nadolig wedi hen fynd a'r tŷ'n edrach braidd yn llwm.  Bu'r coed cactws Nadolig yn llawn blodau tan wythnos gyntaf mis Ionawr (a do, mi flodeuodd yr un wnes i ei symud i botyn mwy tra roedd yn llawn blodau), ond roedden nhw wedi blodeuo'n gynt nag arfer eleni.  Maent yn blanhigion hawdd i'w tyfu a'u cadw o flwyddyn i flwyddyn, jest rhowch nhw allan dros fisoedd cynnes yr haf a pheidiwch a'u gadael i sefyll mewn dŵr pan ddown nhw'n ôl i'r tŷ.   Mae'r hiasinth glas yn llawn blodau a'r rhai roddwyd mewn powliau llai i deulu a ffrindau yn barod i flodeuo yn eu cartrefi nhwythau. Dwi'n hoffi'r arogl cryf arnynt, ond dydy pawb ddim o'r un farn.



hiasinth

Fel arfer yn ystod mis Chwefror gobeithiwn ganfod arwyddion fod y gwanwyn ar ei ffordd (gallwch ddarllen mwy am hyn yn 'Nodiadau Natur ar tud. 15) Fodd bynnag wrth deipio hwn, mae'r Wyddfa ac Eilio yn parhau'n wyn er mi ddaethon ni a'r car i fyny at y tŷ ddoe gan fod y rhew wedi cilio, diolch byth.

Yn yr ardd mae'r nionod blannais i yn yr hydref i'w gweld dal yn fyw ac mae'r garlleg wedi taflu dail. Yn ffodus mae'r cennin a'r cabaits deiliog (*kale*) ac ysgalldail yr enfys (*rainbow chard*) wedi goroesi felly mae dal modd mentro allan i gael rywbeth at swper, sy'n deimlad braf bob amser i unrhyw arddwr.  Mae dail rhai o'r bylbiau yn torri drwy'r pridd yma ac acw ac mae crafanc yr arth (*hellebore*) yn parhau i flodeuo ac maent i'w gweld yn hoffi eu lle yma, h.y. mewn lle eithaf cysgodol.  Mae pigau dail rhai o'r bylbiau blodau wedi gwthio eu ffordd allan o'r pridd, gan ymateb i lefelau uwch o oleuni wrth i'r dydd ymestyn.

Mae'r blodau chrysanthemum oedd tu allan ac yn y ty gwydr wedi bod yn hyfryd gan roi sawl llestr o flodau i mi a fy mam dros y misoedd diwethaf.  Derbyniais lyfr amadnynt fel anrheg Nadolig hynod o dderbynniol, felly rwyf yn edrych ymlaen at gael ceisio creu mwy o blanhigion o'r rhai sydd eisoes yma.  Cawn weld.  Mae rhywun yn dysgu trwy wneud pan yn garddio.

Cofiwch gadw bocsys wyau, yn barod ar gyfer gosod tatw cynnar ynddyn nhw i egino cyn eu plannu.

**Tasgau:**

Mae digonedd i'w wneud dan do, diolch byth!  Cynllunio ar gyfer y tymor plannu a thyfu sydd i ddod a phenderfynu sut rwyf am wario'r tocynnau canolfan arddio dderbyniais fel anrhegion Nadolig,  mae'n amlwg fod fy nheulu'n fy adnabod yn dda… Dydw i ddim yn mynd i frysio i blannu hadau ar hyn o bryd, dwi bob amser yn eu plannu'n rhy fuan ac mae hi yn hwyrach yma na llefydd is, felly dwi am drio fy ngorau i ddal her.  Os fydd pethau wedi egino does gen i ddim digon o lefydd sy'n ddigon cynnes i'w rhoi nhw i gario mlaen i dyfu.  Cofiwch mi fyddai'n deud hyn bob blwyddyn ac yn methu maddau fel arfer.

1. Os am blannu *chillies* maent angen digon o amser i dyfu i gael cynhaeaf da.  Mi ydach chi hefyd angen gwell tywydd yn yr haf na gafwyd llynedd.  Plannwch nhw ar fat cynnes neu *propogator* neu uwchben gwresogydd o ryw fath mewn compost llaith ac yn taenwch 'vermiculite' yn denau drostynt.  Gall yr hadau gymryd tair wythnos i egino ac maent angen bod yn gynnes pan fyddwch yn eu symud i botiau unigol hefyd. Dydw i ddim yn siwr os ydw i am eu tyfu eleni, prin gefais i'r un, er mi dyfodd y planhigion yn fawr a thal ond er cael blodau roedd yn rhy hwyr yn y flwyddyn i gael ffrwyth.  Symudais rhai i'r tŷ ond doeddwn i fawr elwach o wneud hynny chwaith.  Dwi'n  meddwl byddai'n prynu un neu ddau wedi eu tyfu gan rywun arall eleni.

2. Y tu allan, gallwch docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf yn ogystal â'r coed trilliw ar ddeg (*hydrangea),*  coed rhosod a'r *buddleia davidii* .  Mae un goeden rhosod wedi penderfynu parhau i flodeuo drwy'r eira mawr a'r rhew *!*

Gallwch hefyd fynd ati i docio'r clematis.  Mae mis Chwefror yn adeg ardderchog i docio'r rhai sy'n blodeuo'n gynnar yn yr haf (Math 2). Bydd y rhain yn blodeuo yn gynnar yn yr haf ar egin flagur (sideshoots) o fframwaith o ganghennau.  Yn syml torrwch y tyfiant yn ol i flagur tewion sy'n is i lawr ar y planhigyn. Gall y rhai sy'n blodeuo'n hwyr yn yr haf (Math 3) gael eu tocio'n galed yn awr hyd at 15 - 30 cm o'r ddaear. Bydd blodau'n datblygu yn hwyr yn yr haf a dechrau'r hydref ar egin newydd hir. Peidiwch fodd bynnag a thocio'r rhai sy'n blodeuo'n y gwanwyn (Math 1) disgwyliwch tan ar ôl iddynt flodeuo.



Rhosyn eira

3. Os ydy'r  pridd yn weddol sych,  a heb rewi, ewch ati i balu (os nad ydach chi'n defnyddio'r dull dim palu) a gwneud gwely i pa bynnag lysiau fyddwch chi'n eu plannu. Ewch ati i chwynnu fel ag y gallwch chi.  Wedi'r cyfan deuparth y gwaith yw ei ddechrau.

4. Dydy'r lawnt acw ddim yn edrach ar ei gorau ar hyn o bryd, felly pan gawn ni dywydd ychydig sychach a llai gwyntog mi fydd yn rhaid mynd ati i wella'r rhannau nad ydynt yn draenio'n dda iawn. Gall y gwair gael ei gywasgu wrth i chi gerdded arno neu rhedeg y peiriant torri gwair drosto, sy'n arwain at ddŵr yn sefyll arno, sydd yn ei dro'n arafu tyfiant y gwreiddiau ac achosi i'r gwair dyfu'n wanach a phrinnach.

5. Pan yw'r bylbiau yn llawn blodau ac mi ydach chi'n canfod bwlch neu fylchau , does dim rhaid i chi ddisgwyl tan yr hydref i lenwi'r bylchau (fyddwch chi, fel finnau wedi anghofio lle i'w plannu erbyn hynny). Prynnwch rhai yn eu blodau o'r ganolfan arddio lleol a llenwch y bwlch. Plannwch nhw ychydig gentimedrau yn is nag ydyn nhw yn y pot ac mi gewch wledd di-fwlch o liw.  Mi allwch hefyd eu trosglwyddo i dwb neu gynhwysydd yn eich gardd hefyd, a'u mwynhau am flynyddoedd lawer.

6.  Gallwch hefyd blannu lilis mewn potiau hefyd.  Rhowch gompost aml-bwrpas yn nhraean isa'r pot, rhoi'r bylbiau ar ei ben ac yna eu gorchuddio efo mwy o gompost a gorffen y cyfan efo haen o raean i gadw'r lleithder i mewn a'i gadw'n edrach yn daclus.  Gallwch hefyd eu plannu mewn potiau unigol a'u defnyddio i lenwi bylchau yn y borderi yn yr haf.  Mae sawl modd o gael Wil i'w wely.

7. O ganol mis Chwefror ymlaen gallwch osod eich tatws hadyd i egino ar focsys  wyau gwag mewn rhywle golau ac oer (yn y llofft sbâr mae'r rhai acw'n mynd).  Dewiswch datws o faint wyau gan gofio eu gosod yn y bocsys a'u llygaid ar i fyny.  Pan fydd yr egin wedi cyrraedd ryw gentimedr i gentimedr a hanner maent yn barod i'w plannu, fel arfer erbyn canol mis Mawrth.  Aiff rhai i bot mawr yn y tŷ gwydr (i gael rhai cynnar cynharach) a'r gweddill i'r ddaear.



tatws hadyd

Byddant yn barod, a llawer mwy blasus na'r rhai fydd yn y siopau, erbyn mis Mehefin neu Orffennaf.

***Rhosyn Mynydd***

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.
chwilota.wordpress.com

# Dolbadarn a'i Ffermydd Gwartheg

Cyhoeddwyd yr *Extent of Anglesey and Caernarvon* yn 1352. Mae'n cael ei adnabod fel Stent Caernarfon neu'r 'Record of Caernarvon', a dyma'r llawysgrif sy'n cael ei gyfrif fel un o'r ffynonellau pwysicaf am hanes economaidd a chymdeithasol Gwynedd yn y cyfnod cynnar hwn. Mae'n cynnwys manylion am daliadau rhent a'r gwasanaethau oedd yn ddyledus i'r arglwydd neu'r rheolwr gan ei denantiaid. Mae hefyd yn rhestru eiddo'r arglwydd ym mhob cwmwd.

O ddiddordeb arbennig i ni yn yr ardal hon yw enwau'r ffermydd gwartheg oedd yn gysylltiedig â Chastell Dolbadarn; enwau oedd yn bodoli cyn 1352 wrth gwrs, ond enwau sydd wedi aros yn ddigyfnewid hyd ein cyfnod ni. Er hynny, mae peth dryswch ynglŷn ag un o'r enwau rheini.

Y pedair fferm wartheg a enwir yw Cwm Brwynog, Maesgwm, Cwm Dwythwch a'r Aelgerth, yn dilyn yn y drefn hon o lethrau'r Wyddfa ar draws yr ucheldir i lethrau Moel Eilio. Yn wir, ar y Bryn Mawr, sy'n codi o Fwlch y Groes i gopa Moel Eilio mae olion yr hen glawdd pridd oedd yn ffurfio terfyn y ffermydd gwartheg yn dal yno, ond yn prysur gael ei erydu gan ôl traed cerddwyr ar lethrau uchaf y mynydd. Mae Cwm Brwynog, Maesgwm a Chwm Dwythwch yn amlwg yn disgrifio'r tri dyffryn neu gwm rhwng 'breichiau' y gwahanol fynyddoedd oedd yn eu gwarchod:

Mae Cwm Brwynog rhwng llethrau'r Wyddfa a Moel Cynghorion

Mae Maesgwm rhwng Moel Cynghorion a Chefn Drum (braich o'r Foel Goch)

Mae Cwm Dwythwch rhwng Cefn Drum a Braich y Foel (braich o Foel Eilio).

Y cwm nesaf yw'r un sy'n cael ei alw erbyn heddiw yn Gwm Ty-du, ble ceir tarddiad Afon Goch – rhwng Braich y Foel a'r Bryn Mawr (dwy fraich Moel Eilio). Pam felly yr enwir yr Aelgerth fel y bedwaredd fferm wartheg yn Stent Caernarfon? Ai'r Aelgerth oedd yr hen enw ar Gwm Ty-du? A oedd y Ty du yn bodoli yn 1352?

Yr Aelgerth heddiw yw'r enw ar drwyn hynod o serth Braich y Foel ac yn taflu ei gysgod dros Tŷ'r Mawn. Yn ddiddorol iawn, mae'r Comisiwn Brenhinol i Henebion Hynafol yn nodi fod amryw o olion cytiau crynion cynnar wedi eu canfod ar lethrau isaf yr Aelgerth ac yn ardal Tŷ'r Mawn a Hafod Ucha'. Roedd y rhain yn dyddio i amseroedd cynharach na Stent Caernarfon, ond yn dystiolaeth fod pobl wedi hen arfer byw ar diroedd uchel Eryri ers canrifoedd.

Ac i gymhlethu pethau fwy-fwy, beth am yr enw Tŷ'n yr Aelgerth, sef tyddyn ar ochr y llwybr sy'n arwain i Faesgwm. Pwy a pham y rhoddwyd yr enw hwn arno, ac yntau heb fod yn agos at Fraich y Foel na'r Aelgerth?

Mwy o gwestiynau nac o atebion y mis hwn felly, a bydd angen rhywun llawer mwy arbenigol na mi i roi eglurhad ar yr enwau a'u lleoliad.



Yr Aelgerth (llun wedi ei dynnu uwchben Maenllwyd)



Clawdd terfyn (llinell ddu)



Clawdd terfyn yn ymestyn i fyny'r Bryn Mawr

Ddaeth dim ymateb o gwbl i'r cais y mis diwethaf am leoliad yr enwau coll, ond mae'n fwy na phosib eich bod oll yn rhy brysur gyda pharatoadau'r Nadolig! Byddwn yn falch o dderbyn sylwadau – yn enwedig am y goel fod cŵn yn 'adnabod' lleoliad ysbrydion. Ac os oes gennych unrhyw ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r Eco, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com Blwyddyn newydd dda ac ymchwilgar i chwi oll.


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 33

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Bu Bob yn byw yn y sied am fis, i gael arfer efo'i leoliad newydd. Doeddan ni'n gwybod fawr o'i hanes blaenorol o ond mi ddaethom i ddeall ein gilydd gan bwyll bach. Cafodd ddod allan o'r sied a daeth i fyw yn y tŷ, ac erbyn hyn mae wedi hen setlo a chymryd ei le. Gan ei fod o'n 8 oed pan gyrhaeddodd o lethrau Moel Rhiwen doedd o ddim yn arbennig o chwareus. Bellach un tegan pluen ar linyn sy'n mynd a'i fryd ond mae o hefyd wrth ei fodd yn rhedeg ar ôl cysgodion.*


*Ei hoff gêm yw cuddio tu ôl i blanhigyn neu o dan gadair cyn cythru am eich coesau pan ydach chi'n ei basio, neu os ydach chi'n sefyll yn siarad neu drio gweithio allan beth i'w wylio ar y teledu. Anaml mae'n tynnu'r ewinedd allan erbyn hyn, chwarae mae o nid ymosod, a'r hwyl fwyaf ganddo yw os ydach chi'n ddigon gwirion i redeg ar ei ôl o gan smalio bod yn flin! Mi fydd yn 11 oed y mis hwn, rhyfedd meddwl ei fod wedi cymryd ni fel ei ddeu-droediad personol o, sy'n barod i'w fwydo efo prydau maethlon, danteithion, carthu, mwytho a rhannu cadair os ydy o ffansi cysgu ar eich glin. Mae o hefyd lawer gwell efo deu-droediaid bach a mawr ac yn caniatáu iddynt roi mwythau iddo, weithiau!*


*Yn ôl pob sôn gall cathod gofio eu brodyr a chwiorydd am hyd at ddwy flynedd drwy eu hoglau a'r cyswllt wnaed pan oeddent yn gathod bach. Maent yn gallu adnabod cathod eraill, cŵn a phobl hyd yn oed wrth edrych ar lun ohonynt. Does dim llawer o le yn eu cof tymor hir ond maent yn cadw peth ohono i'r creaduriaid oedd yn golygu rwbath iddyn nhw o'r blaen.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl cael swatio yn y tŷ drwy'r eira mawr a'r rhew:

" Maen nhw'n meddwl mod i'n cysgu ond dydw i ddim, er mai llew frenin ydw i, cysgu llwynog fyddai lot o'r amser. Dydw i ddim wedi bod allan ryw lawer yn ddiweddar, mae rhywbeth gwyn ac oer hyd y llawer sy'n brifo fy mhawennau melfedaidd. Mae yna beli bach caled a phlu gwyn yn disgyn o'r awyr hefyd a phan ydw i'n dod yn ôl i'r tŷ maen nhw, y deu-droediaid yn chwerthin ar fy mhen a deud mod i'n debyg i gath eira! Digywilydd iawn yn fy marn i.

Dydw i ddim yn cofio llawer am fy mywyd cyn i mi ddod i fyw i fan'ma at y deu-droediaid presennol. Dwi'n cofio mam, dwi'n meddwl a'i hoglau cynnes hi. Weithiau mi fyddai'n deffro yn meddwl mod i nôl yn un o'r llefydd lle'r oedd yna ddeu-droediaid cas, cyn deffro'n iawn a gweld mod i'n ddiogel. Fyddai'n gweld ambell i gath o gwmpas y lle yma, gyda'r nos fel arfer, dwi wedi gweld un ddu ac un ddu a gwyn ond dwi'n dangos y ffordd adref iddyn nhw. Fi bia fan'ma!





Mae gen i frith gof o frawd bach yr un lliw a mi a chwaer fach ddu a gwyn, ond dydw i ddim yn gallu cofio llawer amdanynt. Yna un noson pan o'n i'n smalio cysgu mi welais i'r deu-droediaid yn sbïo ar y peth bach hirsgwar sgynnyn nhw ac yn chwerthin… Pan edrychais i dros ei hysgwydd hi fu bron i mi ddisgyn allan o fy nghadair - roeddwn i'n siŵr mod i'n adnabod y gath yn y llun…. Roedd o'r un ffunud a fy mrawd ond na, o wrando, Cled oedd enw hwn. Wir yr! Roedd o mor debyg i mi - dwi'n siwr ei fod o'n perthyn. Cefnder efallai… rhyfedd o fyd.

Yn ôl pob sôn roedd fy nghefnder yn gath fach ddireidus. Dim byd tebyg i'w gefnder felly, ond wrth gwrs mae o lawer yn fengach na fi. A dyma beth oedd y gath fach ddrwg a'i bartner mewn drygioni wedi ei wneud…

Erbyn deall roedd ei ddeu-droediaid o'n caniatáu iddo ddod mewn ag allan o'r tŷ drwy ffenast y gegin pan doedden nhw ddim adra. Y diwrnod hwnnw roedd Cled a'i ffrind (dydw i ddim yn ei adnabod o) wedi mynd i mewn, cael bwyd a mynd allan wedyn. Fawr o stori nag ydy… Ond mae'r sinc o dan eu ffenast nhw ac wrth i fy nghefndar bach a'i ffrind basio roedd un ohonyn nhw wedi taro'n erbyn y peth mae'r dŵr yn dod ohono, tap mae'r deu-droediaid yn ei alw. A dyna ni. Ond mae mwy i'r stori am fy nghefnder bach na hynny.


Pan ddaeth ei ddeu-droediad o adra roedd ffenestri'r tŷ wedi stemio! Roedd o'n methu deall pam. Aeth o i mewn a gweld bod y tap ymlaen… Yn anffodus i Cled roedd o wedi taro'r tap lle'r oedd dŵr poeth yn dod ohono. Ooo diar, doedd y deu-droed ddim yn hapus o gwbl. Dwi'm yn dallt yn iawn ond rwbath i neud efo 'boilar' a chostio pres i'w redeg o. Mae'n debyg bydd Cled yn cael ei gadw yn eu ty nhw pan na fydd y deu-droediaid o gwmpas ac na fydd o'n cael mynd allan i chwarae.

Wps! Cath fach ddireidus, mae ei Yncl Bob yn grediniol na wnaeth Cled drio gwneud trafferth i'r deu-droediaid lawr lôn, jest bod o'n ifanc a gwirion. Dwi'n meddwl mod i'n cofio bod yn ifanc a gwirion fy hun.

Nos da Cled. Nos da pawb."








# Ar ben arall i'r lein





Seren yr Wyddfa ddechrau Rhagfyr 2024



Caeau Cwm/Stablau Ionawr 2025



Ble mae wedi mynd dechrau Ionawr 25?




Harbwr Cwm y Glo 'Lake' tua 1930

Croeso pawb i 2025 a be' bynnag sydd ganddi i gynnig. Yn ôl y cyfryngau tydi hi ddim i weld yn argoeli yn rhy dda iawn ar 'run o'n sefydliadau gwleidyddol, sut fydd hyn tybed yn effeithio arnom ni i gyd ar lawr gwlad? Wel mae y rhai hynaf yn ein plith wedi cael blas ar hyn yn barod. Tydw i ddim am fynd i lawr y llwybr yna, ond mae yn ddigon amlwg bod toriadau mawr mewn gwariant cyhoeddus ar ei ffordd a bydd hyn yn cael effaith arnom i gyd.

Cyn belled ag y mae toriadau yn y cwestiwn, mae hyn wedi dod i ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod gyda swyddfeydd yn cau a'r effaith negyddol mae gweithred fel hyn yn gael ar y staff. Rwy'n cyfaddef fy mod wedi bod yn feirniadol iawn o'r corff yma gyn belled a mae ei agwedd at warchod a datblygu ein pysgodfeydd yn y cwestiwn, ac oes mae rhai yn trio eu gorau, ond pan mae penderfyniadau gwleidyddol ar doriadau yn hidlo i lawr does gan swyddogion ddim opsiwn ond gweithredu ar y gorchymynion o'r oruwch-ystafell.

Er gwaethaf hyn i gyd, efallai fod cyfle i ni fel perchnogion y pysgodfeydd geisio ein gorau i gael annibyniaeth i reoli ein dyfroedd ein hunian, mi fuasai'n bosib gwneud hyn ar ganran fach iawn o gostau rhedeg Cyfoeth Naturiol Cymru a'r criw yna sydd dan yr enw Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Ond dyna ni ar hyn am y tro. Yn ystod wythnosau cyntaf y flwyddyn newydd mae'n amlwg fod dim un o fy nymuniadau am 2025 am gael eu gwireddu.

Dyma droi rwan i fod yn fwy hyderus ac edrych ymlaen, a rhaid unwaith eto droi at Lyn y Dywarchen, dyma i chwi enghraifft o sut mae datblygu pysgodfa, ia, aelodau y gymdeithas sy'n rhedeg y fenter yma, gyda chyd-weithrediad Parc Cenedlaethol Eryri. Mae pysgota'r llyn yn denu 'sgotwrs o phob rhan o Gymru, ac unwaith eto rhaid diolch i'r criw bach brwydfrydig sy'n rhedeg y lle, drwy eu gwaith mae brithyll yr enfys yma yn ddiguro. A wyddoch chwi be, efallai bydd mwy o alw am gael rhyw 'sgodyn neu ddau i'r badell o'r dyfroedd gan fod mwy a mwy o alw am gig brithyll.

Mae hyn i gyd yn dod yn sgil yr holl feirniadu sydd ar ddefnydd o gemegau ac ati i drio ceisio cadw afiechydon oddi wrth eogiaid sy'n cael ei magu yn y tanciau rhwydi enfawr o amgylch arfordir yr Alban a'i ynysoedd cyfagos. Mae'r broblem yma wedi ei thrafod yn rhai o fy erthyglau dros lawer blwyddyn, ac o'r diwedd drwy bwysau gan rai fel Elusen Cadwraeth Pysgod Gwyllt mae rhai archfarchnadoedd a hefyd cogyddion mwyaf blaenllaw Prydain yn gwrthod gwerthu a defnyddio eogiaid sydd wedi dod o ffermydd morol yr Alban. Mae canran gwerthiant cig brithyll i fyny rhwng 36% a 54% gan rai o werthwyr mwyaf y wlad. 'Sgwn i os bydd Goronwy yn medru cadw i fyny a'r ordors i badelli Llanrug eleni?

Heblaw am Lyn Dywarchen, sut fydd y llynnoedd eraill yn 'sgota tybed? Fy niddordeb pennaf yw Padarn wrth gwrs, a does ond disgwyl i weld sut fydd pethau yn troi allan gyda'r holl chwyn a charthion sydd o gwmpas y lle. Does neb i weld yn malio dim, a nofio yn y baw a'r chwyn yw'r atyniad mawr. Does dim rhyfedd fod yr awdurdodau yn gyndyn o wneud dim i ymrafael â'r problemau difrifol yma. Dyma un sylwad ddaeth ein ffordd "Does neb yn cwyno ond chi'r sgotwrs".

Mae wedi dod i'n sylw fod y gwch bleser 'Seren y Wyddfa' ar goll. Ydi hi wedi suddo ar ei hangor tybed? Os yw hynny'n wir, a fydd yna broblemau yn codi o hyn? A fydd tanwydd ac olew yn llygru'r dŵr. Cawn weld yn ddigon buan.

Un peth na allwn ei osgoi yw'r ffaith fod cwymp difrifol yn niferoedd torgoch Padarn. Mae'r rhesymau am hyn yn ddigon amlwg, ond diolch i'r drefn mae pethau yn wahanol drosodd ar Lyn Cwellyn, ble mae criw o Ardal y Llynnoedd wedi dangos i ni oll be' i wneud, fel y gwelir yn rhifyn Hydref o'r Eco. Yn ffodus dwi wedi cael genweiri hir o Lyn Windermere a throellwyr o Coniston ac ar y funud dwi wrthi yn rhoi y gêr wrth ei gilydd, cewch wybod yn ddigon buan sut fydd pethau yn mynd.

Does dim posib osgoi y tywydd gwlyb yma yn nagoes, i ni fel pysgotwyr mae yn dod ar yr amser anghywir, tipyn mwy or wlybaniaeth yn ystod misoedd yr haf sydd ei angen! Ond ar nodyn mwy synhwyrol, mae wedi bod yn eithriadol o wlyb dros y misoedd dwythaf a tydw i heb weld caeau ardal Cwm-y-Glo wedi bod dan ddŵr mor aml. Ond rhaid dal sylw nad yw'r llifogydd dros y caeau yma yn beth anarferol oherwydd hyd at oddeutu 1934 'roedd Padarn yn ymestyn o Bont Penllyn at gyrion Cwm. Gweler y llun islaw gyda'r teitl 'Cwm y Glo Lake'

Fel rhan o'm bywyd pysgodfaol mi fydda'i yn chwilio am rhyw farddoniaeth â rhywbeth yn gysyllitiedig â beirdd a oedd, neu yn sy'n dal i fod, yn bysgotwyr. Un sydd o ddiddordeb mawr i mi yw'r diweddar Barch O G Owen, 'Alafon' a fu'n weinidog yn 'Sgoldy Clwt y Bont hyd at ei farwolaeth yn 1916. Roedd yn bysgotwr brwd.

Heblaw 'sgota rwy'n gefnogwr brwd o Manchester City ac wedi bod ers ganol y 1950au, o bosib oherwydd fod Roy Paul yn gapten arnynt ac hefyd yn chware i Gymru. Be' sydd gan hyn i wneud ag Alafon medda chwi – wel drwy ddarllen cofiant Alafon gan y Parch R H Watkins roedd yn cyfeirio at hen farddoniaeth oedd Alafon yn ei gasglu. Dyma sy'n cael eu ddweud 'Cymer llinellau Dewi Havhesp' 1831 – 1883

Dyry sponc, a'i draed sionc sydd
O dano fel adenydd
Awchus grîb gwâl, dâl, mor deg
A naid fel pe bai'n hedeg

Beirdd gyda gweledigaeth am y dyfodol yn rhoi disgrifiad di-guro a flaenwr presennol City, Erling Haaland. 'Sgwn i os oes gwell disgrifiad o chwareawr yn yr Uwch Gynghrair!

**Huw Price Hughes**

# ChwaraeonECO

## Y Gornel Ddarllen

‘Da ni mor ffodus o’n awduron lleol, ac o’r gynulleidfa sy’n darllen yn yr ardal. Mae sawl un o awduron, golygyddion a chyfranwyr at y 10 ucha’ yma â chysylltiad â bro’r Eco... ac roedd e’n hyfryd gweld y llyfrau yma’n fflio oddi ar y silffoedd yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

Diolch i bawb fu’n siopa yn Palas Print ac yng Nghaernarfon cyn y Nadolig hwn, da ni’n gwerthfawrogi eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

1. Yma Wyf Inna i Fod, Angie Roberts (gol)
2. Nelan a Bo, Angharad Price
3. Sgwrs dan y Lloer, Elin Fflur a Marlyn Samuel
4. Chwalu Pen, Llyr Huws
5. O na fyddai’n Haf o hyd! Haf Thomas (Llanrug)
6. V + Fo, Gwenno Gwilym
7. Casglu Llwch, Georgia Ruth
8. Jac a’r Angel, Daf James
9. Salem a Fi, Endaf Emlyn
10. Hunllef Nadolig Eben Parri, Arwel Vittle














ISSN 2516-7235

## Calendr Chwaraeon 2025



Mae 2025 yn edrych yn flwyddyn brysur iawn yn y Calendr Chwaraeon eto eleni gyda thipyn o ddigwyddiadau, gan gynnwys Merched Cymru yn chware yn yr Ewros am y tro cyntaf yn Swistir yn y bêl gron a Merched y bêl hir gron yng Nghwpan y Byd dros Clawdd Offa yn Lloegr. Dyma gip olwg ar rhai o ddigwyddiadau i gadw llygaid arnynt yn ystod y flwyddyn:

**Ionawr**
Tenis Pencampwriaeth Agored Awstralia, Melbourne
Rygbi Undeb Pencampwriaeth y 6 Gwlad Y Dynion yn Dechrau.

**Chwefror**
Pencampwriaeth Snwcer agored Cymru, Llandudno.
Pêl-droed Americanaidd, Superbowl 59, New Orleans
Pencampwriaeth Sgïo’r Byd, Awstria
Criced Tlws y Pencampwyr ICC yn dechrau, Pacistan
Rasio Ceffylau Grand National Gogledd Cymru, Bangor Is-y-Coed

**Mawrth**
Rygbi Undeb, Pencampwriaeth y 6 Gwlad i Ferched yn dechrau.
Rasio Ceffylau, Gŵyl Rasio Cheltenham
Pêl-droed, Gemau Rhagbrofol Cwpan y Byd 2026 yn dechrau
Rasio Ceir, Tymor Fformiwla 1 yn dechrau.

**Ebrill**
Marathon Llundain,
Grand National, Aintree
Golff Y Meistri, Augusta.
Pencampwriaeth Snwcer y Byd, Crucible

**Mai**
Ffeinal Cwpan Cymru, Casnewydd
Seiclo, Giro D’Italia
Hoci Iâ, Pencampwriaeth y Byd
Ffeinal Cynghrair y Pencampwyr, Munich
Pencampwriaeth Tennis Agored Ffrainc, Roland Garros
Rygbi Undeb Ffeinal Cwpan Ewrop, Caerdydd
Rasio Ceir, Indianapolis 500

**Mehefin**
Rasio Ceffylau Y Darbi, Epsom
Rygbi Gynghrair, Ffeinal Y Cwpan Her
Cwpan Dartiau’r Byd, Yr Almaen
Cwpan Pêl-droed Clwb y Byd, UDA

**Gorffennaf**
Pencampwriaeth Ewro 2025 i Ferched, Y Swistir
Ras y Wyddfa, 19eg o Orffennaf
Seiclo, Tour de France
Grand Prix Prydain, Silverstone
Tenis, Wimbledon
Pencampwriaeth Golff Prydain i Ddynion, Royal Portrush
Pencampwriaeth Golff Prydain i Ferched, Porthcawl

**Awst**
Rygbi Undeb, Pencampwriaeth Y Byd i Ferched, Lloegr
Seiclo, Vuelta a Espana
Pencampwriaeth Tennis UDA, Flushing Meadows

**Medi**
Pencampwriaeth Athletau’r Byd, Tokyo
Pencampwriaeth Seiclo’r Byd, Rwanda
Cwpan Ryder Golff, Bethpage Black, Efrog Newydd

**Hydref**
Marathon Eryri, 25 Hydref
Ffeinal Rygbi Gynghrair, Manceinion

**Tachwedd**
Tenis Ffeinal Cwpan Davis a Chwpan Billie Jean King, Yr Eidal
Criced, Taith y Lludw yn dechrau, Awstralia

**Rhagfyr**
Pencampwriaeth Dartiau Byd y PDC, Alexander Palace, Llundain
Cwpan Cenhedloedd Affrica yn dechrau, Moroco
Rasio Ceffylau - Grand National Cymru, Cas-gwent

Gobeithio bydd digon o Chwaraeon i’ch diddanu dros y 12 mis nesaf felly.
***Elgan Rhys Jones***



